Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD IAU, 16 EBRILL 2015 am 2.00 o'r gloch y prynhawn | | THURSDAY, 16 APRIL, 2015 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes<br>01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**ANNIBYNNOL GWREIDDIOL/ORIGINAL INDEPENDENT**

Jim Evans, Victor Hughes, G.O. Jones (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Raymond Jones

**PLAID CYMRU/THE PARTY OF WALES**

R. Meirion Jones (Cadeirydd/Chair), Lewis Davies, Ann Griffith a Llinos Medi Huws

**GRWP CHWYLDROAD/REVOLUTIONIST GROUP**

Sedd Wag / Vacant Seat

**HEB YMUNO/UNAFFILIATED**

R Ll Jones

**AELODAU CYFETHOLEDIG GYDA PHLEIDLAIS PAN YN TRAFOD MATERION YN YMWNEUD AG ADDYSG / CO-OPTED MEMBERS WITH A RIGHT TO VOTE WHEN DEALING WITH EDUCATIONAL MATTERS**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig / The Roman Catholic Church) a Parch./Rev. Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)

**R H A G L E N**

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **DIWEDDARIAD Y CADEIRYDD AC AELODAU**

Y Cadeirydd ac Aelodau i adrodd ar ddatblygiadau/gweithgareddau ers y cyfarfod blaenorol.

**3** **COFNODION CYFARFOD 3YDD CHWEFROR, 2015** (Tudalennau 1 - 18)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol -

- 3ydd Chwefror, 2015 (arbennig – Y Gyllideb)
- 10ed Chwefror 2015
- 24ain Mawrth, 2015 (arbennig)

**4** **DOGFEN GYFLAWNI FLYNYDDOL 2015/16** (Tudalennau 19 - 44)

Cyflwyno’r Ddogfen Gyflawni Flynyddol am 2015/16.

**5** **RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR** (Tudalennau 45 - 46)

Cyflwyno Rhaglen Waith y Pwyllgor hyd at ddiwedd Mai, 2015.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd G.O. Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jim Evans, Ann Griffith, Victor Hughes, Llinos Medi Huws, R. Llewelyn Jones |
| **WRTH LAW**: | Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Cymuned<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br>Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd<br>Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro<br>Pennaeth Busnes Cyngor<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth Dysgu<br>Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol<br>Pennaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol<br>Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd<br>Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd<br>Rheolydd Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ)<br>Rheolydd Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Cyfrifeg (BO)<br>Rheolydd Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau TGCh (NS)<br>Rheolydd Sgriwtini (BS)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Y Cynghorwyr Ieuan Williams (Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Portffolio ar gyfer Addysg) H. Eifion Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid), Kenneth Hughes (Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol), Aled M. Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Datblygu Economaidd, Twristiaeth a Hamdden), Richard Dew (Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Eiddo a Rheoli Gwastraff), Alwyn Rowlands (Aelod Portffolio ar gyfer Trawsnewid Perfformiad, Y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau Dynol), J. Arwel Roberts (Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio a'r Amgylchedd), John Griffith (Aelod Portffolio Cysgodol ar gyfer Cyllid), RG Parry, OBE (Aelod Portffolio Cysgodol ar gyfer Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff), Trefor Lloyd Hughes (Aelod Portffolio Cysgodol ar gyfer Addysg), Nicola Roberts, Mr John R. Jones (Medrwn Môn) |

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Gwnaed datganiadau o ddiddordeb gan y Cynghorydd R. Meirion Jones a'r Cynghorydd Ieuan Williams (nad yw'n aelod o'r Pwyllgor) mewn perthynas ag Eitem 2 ar y rhaglen ynghylch gostyngiad arfaethedig o 10% yn nyraniad yr Awdurdod i Cwmni Cynnal (cynnig yr adroddwyd arno ar lafar fel un ychwanegol ar gyfer arbedion) yn rhinwedd eu swyddi fel cyfarwyddwyr Cyngor Sir Ynys Môn ar y cwmni.

Gwnaed datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorydd Llinos Medi Huws mewn perthynas ag eitem 2 ar y rhaglen ynglŷn â'r materion a nodir isod a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth arnynt:

- Y gostyngiad arfaethedig yn y cyfraniad Grant i'r Urdd
- Y gostyngiad arfaethedig yn y cyfraniad Grant i'r Ffermwyr Ifanc
- Y gostyngiad arfaethedig yn y cyfraniad i Wasanaeth Cerdd Williams Mathias
- Y bwriad i gyflwyno Ffi ar gyfer Disgyblion nad ydynt yn derbyn Prydau Ysgol Am Ddim mewn perthynas â brecwast am ddim yn yr ysgol.

  Gwnaed datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorydd Nicola Roberts (nad yw'n aelod o'r Pwyllgor) mewn perthynas ag eitem 2 ar y rhaglen ynghylch y gostyngiad arfaethedig yn y Grant i'r Urdd a'r bwriad i gyflwyno ffi ar gyfer disgyblion nad ydynt yn derbyn Prydau Ysgol Am Ddim mewn perthynas â brecwast am ddim yn yr ysgol. Gadawodd y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth ar y materion hynny.

**2 CYNIGION CYCHWYNNOL AR GYFER CYLLIDEB 2015/16**

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i gynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Cyllideb Refeniw 2015/16 fel y cawsant eu nodi yn yr adroddiad gan y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro a gyflwynwyd i gyfarfod o Bwyllgor Gwaith y Cyngor ar 15 Rhagfyr 2014.

Edrychodd y Pwyllgor yn fanwl ar y cynigion ar gyfer Arbedion Effeithlonrwydd a gyflwynwyd fesul gwasanaeth (Atodiad B i'r adroddiad). Roedd y Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'u Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol, ynghyd â'r Aelodau Portffolio a'r Aelodau Portffolio Cysgodol perthnasol wedi cael gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod hefyd yn ôl amserlen a drefnwyd ymlaen llaw. Holwyd y Swyddogion a'r Aelodau Portffolio gan y Pwyllgor ynghylch -

- Y rhesymeg ar gyfer y cynigion arbedion a gyflwynwyd ac a gynigiwyd ar gyfer eu gweithredu
- Effaith pob cynnig ar ddarparu'r gwasanaeth dan sylw ac ar y rheini sy'n derbyn y gwasanaeth / grwpiau cleient pan fo'n berthnasol
- Y risgiau i'r dyfodol yn sgil gostwng neu beidio â darparu gwasanaeth, sef y risg i'r gwasanaeth dan sylw a'r grŵp cleient a allai gael ei effeithio ac ar y Cyngor fel corfforaeth yn gyffredinol.
- Opsiynau wrth gefn posib ar gyfer gostwng cyllidebau a ph'un a oedd dewisiadau eraill wedi eu hystyried.
- P'un a oedd modd gwireddu'n llawn y cynigion a gyflwynwyd yn 2015/16.

Cyflwynodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro adroddiad llafar ar naw llinell ychwanegol o gynigion arbedion ar draws gwasanaethau nad oeddent wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ysgrifenedig. Nodwyd y rhain gan y Pwyllgor ac fe'u cymerwyd i ystyriaeth wrth werthuso'r pecyn cyllidebol drafft.

Yn y drafodaeth ddilynol, dygodd y Pwyllgor sylw at yr isod fel materion yr oedd yn dymuno cael rhagor o eglurhad yn eu cylch o ran goblygiadau'r cynnig:

- **Cymuned**

  - Gofynnwyd am eglurhad ar y risg o roi'r gorau i ddefnyddio Cadeirydd Annibynnol ar gyfer y Panel Maethu a chyflawni'r swyddogaeth honno'n fewnol (£4K).

    Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant fod yr ystyriaethau'n cynnwys tynnu amser swyddog o waith arall i ymgymryd â'r rôl honno a cholli arbenigedd a sgriwtini allanol yr oedd cadeirydd annibynnol yn medru eu darparu ar gyfer y dasg. Oherwydd bod y Gwasanaeth Maethu yn un a reoleiddir, gellir disgwyl efallai i reoleiddwyr allanol herio'r cynnig fel cam yn ôl. Fel lliniariad, bydd y Gwasanaeth yn ymdrechu i adnabod swm sydd gyfwerth â'r arbediad o £4k o ran arall o'r gyllideb, a hynny er mwyn sicrhau fod y swyddog a ddynodwyd i wneud y gwaith yn cysgodi'r cadeirydd annibynnol yn y rôl honno ac i ostwng y risg o golli arbenigedd.

  - Gostyngiad arfaethedig yng nghostau Asiantaethau Maethu Annibynnol (£75K).

    Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod y Gwasanaethau Plant yn medru gweithredu'r cynnig yn broffesiynol ac yn ddiogel a'u bod wedi rhoi sylw priodol i unrhyw effaith bosib ar y plant / pobl ifanc sydd wedi eu lleoli gydag asiantaethau annibynnol.



DRAFFT

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant mai'r risg yw anallu i wireddu'r arbedion dan y cynnig hwn yn llawn oherwydd bod raid i anghenion y plant fod yn bennaf goruwch y targed ariannol. Esboniodd y disgwylir gwneud arbedion o £13.5k trwy gaffael yn fwy effeithlon yn sgil ymuno â fframwaith maethu rhanbarthol Gogledd Cymru ac oddeutu £61k drwy ceisio lleoli plant sy'n derbyn gofal gyda gofalwyr maeth yr Awdurdod ei hun. Mae gweithredu'r cynnig yn llwyddiannus yn seiliedig ar fedru recriwtio digon o ofalwyr maeth a darparu lleoliadau lleol ar gyfer plant sy'n trosglwyddo o leoliadau maethu annibynnol a bod symud lleoliad o fudd i'r plentyn. Cydnabu fod y Pwyllgor yn dymuno bod yn siŵr ei fod yn gwneud yr hyn sydd orau i'r plant wrth iddo gymeradwyo'r cynnig. Cadarnhaodd y Pwyllgor ei safbwynt fod raid i'r penderfyniad fod y penderfyniad iawn ar gyfer y plant dan sylw yn hytrach nag o ran y gyllideb, ac roedd yn fodlon bod y Gwasanaeth wedi gweithredu ar y sail honno.

- Gostyngiad arfaethedig yng Nghostau Lleoliadau Allsirol (£51K)

  Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant fod y rhain yn lleoliadau sy'n darparu lefel arbenigol o ofal addysg, iechyd a / neu ofal cymdeithasol i blant nad yw'r Awdurdod yn medru ei ddarparu o'i adnoddau mewnol. Mae'r cynnig yn rhagdybio cwrdd â'r gofynion 'status quo' a hefyd yn caniatáu ar gyfer 78 o wythnosau ychwanegol os bydd angen un neu ddau o leoliadau yn ystod y flwyddyn. Pwysleisiodd y Swyddog fod hwn yn wasanaeth sy'n cael ei arwain gan y galw a bod angen "rhwyd diogelwch" ar ffurf adnoddau y gall y gwasanaeth eu defnyddio i gwrdd ag anghenion nad ydynt wedi eu cynllunio neu nad oedd modd eu rhagweld - gall un lleoliad o'r fath gostio hyd at £250k. Rhaid i'r Awdurdod gael yr hyblygrwydd i fedru ymateb i anghenion nad oedd modd eu rhagweld uwchben y gyllideb yn seiliedig ar achos busnes. Cadarnhaodd y Swyddog Adran 151 y byddai'r ddarpariaeth hon mewn lle.

  Nododd y Pwyllgor na fydd ond modd cyflawni'r arbedion yn y cynnig hwn os nad oes unrhyw alwadau annisgwyl a phwysleisiodd eto mai lles gorau'r plentyn unigol ddylai fod y sail ar gyfer gweithredu.

- Dod â chontract cyfredol y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed i ben (CAMHS) (£38k)

  Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant fod y gwasanaeth hwn, yn hanesyddol, wedi cyllido swydd Gweithiwr Cymdeithasol o fewn CAMHS er nad oes dyletswydd orfodol i wneud hynny. Fodd bynnag, mae gan yr Awdurdod ddyletswydd statudol i asesu a chefnogi plant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl ac i gwrdd ag anghenion plant y gofelir amdanynt. Mae'r Awdurdod wedi ceisio dylanwadu ar y swydd i sicrhau ei bod yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau statudol yr Awdurdod yn hytrach na bod yn adnodd ar gyfer CAMHS. Yr ail agwedd oedd sicrhau fod y swydd yn gallu datblygu arbenigedd o fewn y Gwasanaethau Plant ar faterion iechyd meddwl i blant. Oherwydd bod y swydd yn wag ar hyn o bryd mae'r risg o ddileu'r swydd yn llai ond erys risg o ran diffyg darpariaeth ar gyfer y plant a'r bobl ifanc yng ngofal yr Awdurdod a chanddynt anghenion iechyd meddwl ac oherwydd y posibilrwydd y gallai anghenion iechyd meddwl nad ydynt yn cael sylw ar y pwynt hwn waethygu fel bod rhaid cael mewnbwn llawer drutach rhyw dro yn y dyfodol.

  Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth fel y gallai ddeall pwysigrwydd y swydd yng nghyd-destun plant ddim yn medru cael mynediad i wasanaeth CAMHS. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant mai arwyddocâd y swydd i'r Awdurdod yw ei bod yn golygu y gellir adnabod yn gynnar y plant hynny yn ei ofal sydd ag anghenion iechyd meddwl a bod ymyrraeth gynnar felly'n caniatáu i'r Awdurdod gyfeirio'r plant hynny i wasanaethau lles emosiynol yn hytrach na gwasanaethau iechyd meddwl gan ddod o hyd i ffordd o gwmpas y mater o fethu â chael mynediad i CAHMS.

- Arbedion Effeithlonrwydd y Trydydd Sector (£8k). Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar effaith gostyngiad mewn cymorth ariannol ar y sefydliadau trydydd sector dan sylw.

  Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant fod yr arfer o ddyfarnu contractau blynyddol i sefydliadau trydydd sector a gwneud toriadau blynyddol ynddynt wedyn yn peri rhwystredigaeth i'r gwasanaeth oherwydd ei bod yn ymagwedd tymor byr nad yw'n cynnig sicrwydd ariannol. Er bod gostyngiad o 10% yn y gyllideb wedi ei gynnig ac a fydd yn cael

DRAFT

effaith ar dri sefydliad yn benodol yn y Gwasanaethau Plant, mae'r Awdurdod wedi ceisio lliniaru'r effaith trwy ymrwymo i gontract cyllido 3 blynedd a fydd yn cynnig elfen o sefydlogrwydd a diogelwch ariannol i'r sefydliadau.

Er yn nodi'r gostyngiad arfaethedig yn y cymorth cyllidol ar gyfer sefydliadau trydydd sector, cymeradwyodd y Pwyllgor y trefniant tair blynedd ar gyfer cyllido'r sefydliadau hynny ar y sail ei fod yn rhoi mwy o sicrwydd iddynt ac yn eu galluogi i gynllunio ymlaen.

Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro fod adolygiad eang o berthynas yr Awdurdod gyda'r holl sefydliadau trydydd sector wrthi'n cael ei gynnal ac nad ydyw eto wedi ei gwblhau. Amcangyfrifir bod y Cyngor yn talu cyfanswm oddeutu £10m i sefydliadau trydydd sector mewn blwyddyn. Nod yr adolygiad yw rhoddi perthynas yr Awdurdod gyda sefydliadau trydydd sector ar sylfaen gadarnach a darparu ar eu cyfer fwy o sicrwydd ynghylch llif cyllid a fydd yn rhyng-gysylltu'n well â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor. Yn wyneb hynny, rhybuddiodd yn erbyn rhoddi unrhyw sicrwydd ynghylch cyllid yn ystod y 2 i 3 blynedd nesaf hyd oni fydd yr adolygiad cyffredinol hwn wedi'i gwblhau.

Nododd y Pwyllgor gyngor y Swyddog.

- Nododd y Pwyllgor fod y risg ambr sy'n gysylltiedig â chynnig arbedion Garreglwyd (y cynnig ynghylch arbedion ychwanegol yr adroddwyd arnynt ar lafar) yn ymwneud â methiant i werthu'r safle.

- Y gostyngiad arfaethedig yn y costau llety Gwely a Brecwast yn y Gwasanaeth Tai (£115k) (y cynnig ynghylch arbedion ychwanegol yr adroddwyd arnynt ar lafar).

  Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Tai fod newidiadau yn y ddeddfwriaeth Ddigartrefedd yn ystod y flwyddyn yn debygol o arwain at gynnydd yn y galw am lety Gwely a Brecwast ac y bydd hynny, ynghyd â chyflwyno Credyd Cynhwysol ym mis Gorffennaf 2015 a gostyngiadau yn y Rhaglen Cefnogi Pobl yn rhoddi'r gyllideb hon dan bwysau cynyddol. Mae cynnig i ostwng y gyllideb hon gan £23,368 wedi cael ei gyflwyno er bod swm uwch wedi cael ei gymryd allan o'r gyllideb hon oherwydd tanwariant yn y gorffennol. Petai gorwariant yn y gyllideb oherwydd y ffactorau y soniwyd amdanynt, dywedodd y Swyddog yr hoffai dderbyn sicrwydd y bydd rhwyd diogelwch cyllidol ar gael ar gyfer y gyllideb hon.

  Cadarnhaodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro mai'r arbediad arfaethedig yn y gyllideb ar gyfer costau Gwely a Brecwast yw £115k. Yn draddodiadol, roedd swm o £250k wedi ei neilltuo ar gyfer y gyllideb hon ond nid oedd mwy na £50k i £60k wedi cael ei wario gyda hynny'n cyfrif am yr arbediad o £115k. Fodd bynnag, gan fod hon yn gyllideb sy'n dibynnu ar y galw amdani a bod y ddarpariaeth yn un statudol, gellir rhyddhau arian o gronfa wrth gefn petai raid a hynny'n unol â phroses wedi ei rheoleiddio'n briodol.

  Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd fod digon o adnoddau ar gael yn y gronfa gorfforaethol wrth gefn ar gyfer yr amrediad o wasanaethau sy'n dibynnu ar y galw amdanynt ac a fydd efallai'n gorfod tynnu arian i'r gronfa honno.

  Cadarnhaodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro y byddai'n rhaid cael proses wedi ei rheoleiddio'n briodol ar gyfer rhyddhau'r cyllid. Petai'r gronfa wrth gefn yn cael ei llethu gan y pwysau arni (ac mae hynny'n annhebygol) yna byddai'n rhaid tynnu arian o gronfa wrth gefn y Cyngor.

- Opsiynau y gellir troi atynt. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant y byddai unrhyw gynigion eraill ar gyfer nodi arbedion cyllidebol yn golygu adolygiad o'r math a'r lefel o ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.

- **Cynllunio/Gwastraff/Priffyrdd**

  - Y bwriad i ostwng y cyfraniad a roddir i'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd(£25k). Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai Cyngor Gwynedd yn gostwng ei gyfraniad gan swm cyfatebol ac a fyddai'r toriad yn cael unrhyw effaith wirioneddol ar waith yr Uned.

Dywedodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd fod y gostyngiad arfaethedig o £25k yn weddol fychan yng nghyd-destun y cyfraniad blynyddol o £300k ac, yn dilyn trafodaeth bellach, mae'n debygol y bydd cyfraniad Gwynedd yn gostwng gan swm tebyg. Dywedodd y Swyddog ei fod yn hyderus na fyddai'r cynnig, sy'n golygu gostwng oriau gwaith staff, yn cael effaith ar y Cynllun Datblygu ar y Cyd ac y gellir rheoli hyn.

- Y Gostyngiad Arfaethedig yn y Gyllideb ar gyfer Gwaith ar y Priffyrdd (£414k).

  Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol fod darpariaeth yn y gyllideb Refeniw ar gyfer Priffyrdd i dalu i gontractwyr am waith cynnal a chadw priffyrdd, swm oddeutu £1.75m y flwyddyn. Telir swm o £1.25m i Hogan's am ailwynebu priffyrdd a neilltuir £200k ar gyfer torri gwair - cyfanswm o £3.2m. Bydd y gyllideb hon yn gostwng i £2.5m yn fras os penderfynir gwneud yr arbediad. Mae'r cynnig o bosib yn golygu torri contractau gyda'r contractwyr; fodd bynnag, gwnaed bid am £2m yn y rhaglen gyfalaf fel benthyca pwyllog ar gyfer y flwyddyn nesaf a'r flwyddyn wedyn fel y gellir parhau i ddarparu'r un lefel o wasanaeth. Erbyn 2017/18, rhagwelir y bydd y gwaith sy'n gysylltiedig ag Wylfa newydd wedi cychwyn.

  Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynglŷn â'r risgiau cynhenid a oedd ynghlwm wrth dorri contractau gyda chontractwyr o ran y posibilrwydd y byddai hynny'n arwain at gostau. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol fod risg yn gysylltiedig oherwydd bydd y contractwyr hynny wedi costio gwaith yn seiliedig ar y contract ac mae'n bosibl y gallai'r costau hynny fod yn uwch na'r arbedion os na fydd y cais am £2m ar gyfer benthyca pwyllog yn llwyddiannus.

  Nododd y Pwyllgor yr elfen o risg sydd ynghlwm wrth ostwng y gyllideb ar gyfer Gwaith ar y Priffyrdd yn y modd a ddisgrifir a hynny o ran y posibilrwydd o gostau gan nodi hefyd y gallai'r costau hynny fod yn uwch na'r arbedion os na fydd y fid am fenthyciadau pwyllog yn llwyddiannus.

- Cydweithio (Rheoli Gwastraff) (£50k).

  Nododd y Pwyllgor fod y cynnig hwn yn annhebygol o gael ei wireddu yn 2015/16 oherwydd nad yw'r trafodaethau gyda Chyngor Gwynedd wedi symud ymlaen ddigon i fedru gweithredu'r cynnig mewn pryd.

- Gwerthu Gwastraff Gwyrdd (£75k)

  Nododd y Pwyllgor y posibilrwydd na fydd yr arbediad hwn yn cael ei wireddu oherwydd yr oedi o ran sicrhau'r caniatadau angenrheidiol gan Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.

- **Addysg**

  - Gostyngiad yn y Gyllideb ar gyfer Gwella Safonau mewn Ysgolion (£43.4k)

    Nododd y Pennaeth Dysgu mai GwE sydd bellach yn gyfrifol am yr elfen honno o'r gefnogaeth a roddir i ysgolion sy'n ymwneud â chodi safonau ac y comisiynir y gwasanaeth drwy gyfrwng Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r corff rhanbarthol. Mae'r Gwasanaeth yn credu y gallai gwrdd ag unrhyw anghenion ychwanegol o gyllidebau eraill.

  - Newid y modd y darperir y Gwasanaeth Allgymorth sy'n rhan o'r Gwasanaeth Ieuenctid (£16.3k)

    Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o oblygiadau newid y modd y darperir yr elfen allgymorth o'r gwasanaeth yn achos y cymunedau hynny nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan glwb ieuenctid chwaith.

    Dywedodd y Pennaeth Dysgu fod rhaid i agwedd gwerth am arian y gwasanaeth allgymorth gael ei asesu yn wyneb trawsnewidiad y Gwasanaeth Ieuenctid yn ei gyfanrwydd. Daeth y

Gwasanaeth i'r casgliad y gellir darparu'r gwasanaeth drwy ffynonellau eraill ac, yn achos y cymunedau hynny lle nad oes clwb ieuenctid, drwy ddefnyddio adeilad lleol.

- Gwasanaeth Cwnsela – Gostyngiad yn y Cyfraniad (9k)

  Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai gostwng y cyfraniad â goblygiadau o ran sicrhau fod y gwasanaeth ar gael i'r holl blant ysgol sydd ei angen.

  Dywedodd y Pennaeth Dysgu fod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu ar y cyd â Chyngor Gwynedd. Mae trafodaethau ynghylch gweithredu arbedion oddeutu 5 –10% yn y gwasanaeth wedi cychwyn gyda Rheolydd y Gwasanaeth ac mae'r trafodaethau hynny'n canolbwyntio ar ostwng costau swyddfa gefn yn hytrach na'r ddarpariaeth o'r gwasanaeth. Nid yw Gwynedd wedi cadarnhau eu bwriad hyd yma.

- Gostyngiad 10% yn y Cyfraniad i'r Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (93k)

  Dywedodd y Pennaeth Dysgu fod llinellau cyllidebol nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio dan y Cydbwyllgor AAA ynghyd â gorwariant traddodiadol ar staffio. Teimlir y gall y gwasanaeth ddal gostyngiad 10% yn ei gyllideb ac y byddir yn canolbwyntio ar resymoli swyddogaethau gweinyddol.

- Gostyngiad yng Nghostau Lleoliadau All-sirol (£80k)

  Er bod nifer y lleoliadau addysgol all-sirol wedi gostwng, dywedodd y Pennaeth Dysgu fod yr Awdurdod yn ceisio darparu ar gyfer plant yn lleol, mae hon yn gyllideb sy'n dibynnu ar y galw amdani a rhaid sicrhau hyblygrwydd fel y gellir ymateb i'r galw pan mae'n codi.

  Nododd y Pwyllgor fod y Gwasanaeth yn fodlon gyda'r gyllideb oherwydd mae darpariaeth ynddi ar gyfer dibynnu am gymorth o'r arian wrth gefn corfforaethol pe gwelir cynnydd yn y galw am y gwasanaeth.

- Gostwng Cyfraniadau i'r Urdd/Ffermwyr Ifanc (£21k yr un)

  Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y ddau sefydliad yn cael eu cyllido drwy Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac fe nodwyd y wybodaeth.

- Brecwast am ddim yn yr Ysgolion – Cyflwyno Ffi ar gyfer Disgyblion nad ydynt yn cael Cinio am Ddim (171k)

  Roedd y Pwyllgor yn pryderu am yr effaith a gâi'r cynnig o bosibl ar deuluoedd lle nad yw'r plant yn cael cinio am ddim ond eu bod serch hynny, ar incwm isel. Pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

  Dywedodd y Pennaeth Dysgu fod y cynnig yn cael ei gyflwyno fel awgrymiad ac na fydd yr ymgynghori'n cychwyn hyd oni fydd y Gwasanaeth wedi cael mandad i symud ymlaen. Yn ôl atborth anffurfiol, mae yna wahaniaeth barn ar y mater ond byddai'r ddarpariaeth yn parhau i fod ar gael i'r plant mwyaf bregus. Mae'r Gwasanaeth yn mofyn cymorth i ymchwilio i arbedion posibl dan y pennawd cyllidebol hwn.

  Nododd y Pwyllgor y byddai'n cymryd hyd at dri mis i gwblhau cynnig swyddogol.

- Cynyddu Ffioedd Teithio ar gyfer Pobl Ifanc 16+ a Chodi ar Ddisgyblion 16+ mewn Ysgolion (50k)

  Nododd y Pwyllgor fod y cynnig eisoes wedi cael ei gymeradwyo'n ddemocratig ac na ddylid o'r herwydd ei gynnwys fel rhan o'r cynigion ar gyfer ymgynghori yn eu cylch. Nodwyd hyn gan y Pwyllgor a mynegwyd siom ynglŷn â'r diffyg ymgynghori ar y cynnig a'r modd y cafodd hyn ei reoli.

- **Busnes y Cyngor**


DRAFT

- Gostyngiad yn y Contract Iechyd Galwedigaethol (£4k) (Adroddwyd ar lafar am arbedion ychwanegol)

  Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch effaith y gostyngiad. Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Adnoddau Dynol fod y cynnig yn ffurfio rhan o'r adolygiad corfforaethol cyffredinol mewn perthynas â rheoli absenoldeb salwch a'r bwriad oedd i'r rheolwyr ymgymryd â'r rhan o'r gwaith sy'n ymwneud â diwydrwydd dyladwy.

  Roedd yr Aelodau'n pryderu am y baich a rydd hyn ar reolwyr oherwydd yn ôl y Cerdyn Sgorio Perfformiad Corfforaethol, maent eisoes yn ei chael yn anodd i gwblhau Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith yn unol â'r targed heb gael cyfrifoldebau ychwanegol.

- Nododd y Pwyllgor fod y manylion a roddwyd yn y papur ar y gyllideb ddrafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith a'r manylion yn y ddogfen ymgynghori gyhoeddus, Cwrdd â'r Heriau, yn wahanol. Awgrymwyd y dylai'r cyhoedd gael yr un lefel o wybodaeth â'r Aelodau Etholedig ac y dylai'r dull o ymgynghori gyda'r cyhoedd yn y dyfodol fod yn gyson â'r dull a fabwysiedir wrth ymgynghori'n fewnol.

- Nododd y Pwyllgor fod y papur briffio ar Arbedion Effeithlonrwydd a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Addysg wedi bod o gymorth o ran deall yn well a gwerthuso'r cynigion ar gyfer arbedion a gynigiwyd gan y gwasanaeth ac awgrymwyd y dylai gwasanaethau eraill ystyried mabwysiadu'r arfer hwn ar gyfer y dyfodol.

- Nododd y Pwyllgor fod angen mabwysiadu dull cyson ac unffurf o ran delio gyda'r holl sefydliadau Trydydd Sector gan roddi rhybudd dyledus iddynt o'r toriadau cyllidol a'u hailgyfeirio at ffynonellau cyllido eraill os oes rhai ar gael.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Cymuned y gofynnwyd i'r sefydliadau Trydydd Sector drwy lythyr i amlinellu beth fyddai goblygiadau gostyngiad pellach o 5% yn y cymorth ariannol a bod 10 o sefydliadau wedi ymateb i'r llythyr hwnnw.

- Mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch effaith gronnol toriadau ariannol ar siâp y Cyngor yn y dyfodol fel endid corfforaethol gydag ond ychydig iawn neu ddim cyfeiriad o gwbl at feysydd twf.

  Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro fod rhaid i'r Cyngor, er mwyn goresgyn y ffaith ei fod yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru am ei gyllid, yn gorfod chwilio am ffynonellau cyllido newydd nad ydynt yn cael eu dylanwadu'n drwm gan y Llywodraeth gan olygu y bydd angen iddo fanteisio i'r eithaf ar ffrydiau cyllido a chreu rhai newydd ac/neu gael gwared ar asedau hirsefydlog ac y bydd hynny'n golygu gwneud penderfyniadau heriol.

- Rhoes y Pwyllgor sylw i lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor yn wyneb cyfanswm gwerth y pecyn arbedion. Ymchwiliodd y Pwyllgor i'r posibilrwydd a fyddai cynnydd 5% yn golygu y gellid tynnu rhai arbedion yn ôl yn enwedig lle gallai'r arbedion hynny effeithio ar grwpiau mwy bregus gan bwyso a mesur yr opsiwn hwn yn erbyn budd ac ymarferoldeb lleihau baich y dreth ar drigolion Ynys Môn yn gyffredinol drwy weithredu cynnydd o lai na 5% yn y Dreth Gyngor.

**Penderfynwyd –**

- **O ran yr arbedion effeithlonrwydd y bwriedir eu gwneud yn y Gwasanaethau Plant mewn perthynas â chostau Plant sy'n Derbyn Gofal, nododd y Pwyllgor mai'r brif ystyriaeth o ran gweithredu'r arbediad hwn yn broffesiynol ac yn ddiogel yw lles gorau'r plentyn.**
- **Bod y Pwyllgor yn pryderu ynghylch goblygiadau toriadau arfaethedig mewn cyllidebau a gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw amdanynt (Lleoliadau Allsirol yn y Gwasanaethau Plant ac Addysg a darparu llety Gwely a Brecwast yn y Gwasanaethau Tai) a'i fod yn erfyn ar y Pwyllgor Gwaith i sicrhau fod darpariaeth ddigonol ar gael drwy gronfa wrth gefn gorfforaethol fel y gellir cwrdd ag unrhyw bwysau nad oedd modd eu rhagweld mewn perthynas â'r cyllidebau hynny ac unrhyw gyllidebau eraill sy'n cael eu harwain gan y galw amdanynt.**

- **Bod y Pwyllgor yn nodi bod angen dilysu a gwneud gwaith pellach ar rai o'r cynigion ar gyfer arbedion, e.e. Codi am Frecwast i ddisgyblion nad ydynt yn derbyn Cinio am Ddim a'r ffaith na fydd rhai arbedion efallai'n cael eu gweithredu, e.e. Gwerthu Gwastraff Gwyrdd ac y bydd hyn â goblygiadau i'r Gyllideb.**
- **Bod y Pwyllgor yn nodi y bydd y broses o bennu'r Gyllideb yn cael ei hadolygu gyda dadansoddiad o'r hyn a aeth yn dda a'r hyn y gellid ei wella ar gyfer rowndiau cyllidebol yn y dyfodol.**
- **Bod y Pwyllgor yn nodi ac yn canmol y ffaith fod y Papur Briffio ar Arbedion Effeithlonrwydd a baratowyd gan y Gwasanaeth Addysg wedi hwyluso'r broses o sgriwtineiddio'r cynigion a'i fod yn argymell fod gwasanaethau eraill yn mabwysiadu'r arfer hon yn y dyfodol.**
- **Bod y Pwyllgor yn argymell cynnydd rhwng 4.5% a 5% yn y Dreth Gyngor.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI:**

**Bod yr isod yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod o'r Pwyllgor hwn ar 10 Chwefror fel parhad o'r broses o sgriwtineiddio'r cynigion ar gyfer Cyllideb 2015/16.**

- **Cynigion ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2015/16.**
- **Yr ymateb i'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar y cynigion ar gyfer Cyllideb 2015/16.**

**Y Cynghorydd R. Meirion Jones**
**Cadeirydd**

DRAFFT

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd G.O. Jones (Is-gadeirydd (Yn y Gadair)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Victor Hughes, Llinos Medi Huws, Raymond Jones. |
| **WRTH LAW**: | Dirprwy Brif Weithredwr<br>Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro<br>Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes (GM)<br>Rheolydd Dros Dro – Gwasanaethau Cyfrifeg (BO)<br>Cyfrifydd Cyfalaf a Rheoli Trysorlys (GR)<br>Rheolydd Sgriwtini (BS)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Jim Evans, Ann Griffith, R. Llewelyn Jones, R. Meirion Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Y Cynghorwyr Hywel Eifion Jones (Aelod Portffolio Cyllid) Ieuan Williams Arweinydd ac Aelod Portffolio Addysg) John Griffith (Aelod Portffolio Cysgodol - Cyllid), Nicola Roberts |

---

Rhoes y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Nododd yr ymddiheuriadau am absenoldeb a dywedodd nad oedd y Cynghorydd Jim Evans yn bresennol am ei fod wedi cael codwm. Ar ran Aelodau'r Pwyllgor, dymunodd i'r Cynghorydd Jim Evans, adferiad iechyd llawn a buan.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 COFNODION CYFARFOD 13 IONAWR, 2015**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir – gofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 13 Ionawr, 2015.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y Rheolydd Sgriwtini, yn dilyn y cyfarfod diwethaf, wedi cymryd camau i symud ymlaen gyda'r camau gweithredu isod a nodwyd gan y Pwyllgor -

- Trefniadau ar gyfer hyfforddiant penodol i holl aelodau cyrff llywodraethu ysgolion o ran gwella a herio ysgolion – cafwyd trafodaeth ynghylch hyn gyda'r Pennaeth Dysgu.
- Cyfuno diweddariad ar y Gwasanaethau Plant gyda sesiwn friffio sydd wedi cael ei chynllunio ar gyfer yr Aelodau mewn perthynas â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) – cafwyd trafodaeth gyda'r Cyfarwyddwr Cymuned yn ei chylch.
- Dwyn at sylw'r Arweinydd cyn cadarnhau'r cynigion cyllidebol ar gyfer 2015/16, adroddiadau'r Panel Canlyniad Sgriwtini ar Reoli Absenoldeb Salwch ac Arbedion Cyllidebol 2014/15.

  Dywedodd y Rheolydd Sgriwtini wrth y Pwyllgor fod y Cynghorydd R. Meirion Jones, Cadeirydd y Pwyllgor wedi cysylltu gyda'r Prif Weithredwr i fynegi ei siomedigaeth nad oedd yr Adroddiad Monitro Perfformiad ar y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 3 2014/15 ar gael i'r Pwyllgor mewn pryd ar gyfer y cyfarfod hwn. Mae'r adroddiad ers hynny wedi cael ei gyhoeddi fel rhan o'r rhaglen a'r papurau ar gyfer y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhelir ar 16 Chwefror ond ni fedrir ei drafod yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol oherwydd nad oedd wedi ei gynnwys fel eitem i'w thrafod yn y cyfarfod – yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, rhaid rhoi rhybudd cyhoeddus digonol ynghylch hyn. Wedi ystyried y

mater ac yn wyneb y ffaith na fydd y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor hwn yn cael ei gynnal hyd fis Ebrill, roedd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd o'r farn bod angen cynnal cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor cyn hynny er mwyn ystyried Adroddiadau Monitro Perfformiad Chwarter 3.

Cytunodd y Pwyllgor y dylid cynnal cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor am y rhesymau a roddwyd.

**GWEITHREDU: Y Rheolydd Sgriwtini i ymgynghori gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i gadarnhau'r trefniadau ar gyfer y cyfarfod arbennig.**

**3 BIDIAU CYFALAF 2015/16**

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor – adroddiad gan y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro yn cynnwys rhestr o fidiau cyfalaf arfaethedig a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr, 2014 ar gyfer eu cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2015/16 – 2019/20.

Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro mai hon oedd y flwyddyn gyntaf i'r Cyngor gael rhaglen gyfalaf gynhwysfawr sy'n dwyn ynghyd yr holl geisiadau am arian cyfalaf. Eleni, cydnabuwyd bod nifer o brosiectau pwysig yn mynd rhagddynt yn y Cyngor a bod blaenoriaeth uchel i bob un ohonynt ond nad ydynt erioed wedi cael eu hasesu gyda'i gilydd o ran ba mor fforddiadwy ydynt yng nghyd-destun adnoddau cyfalaf prin. Roedd yr adroddiad yn dwyn ynghyd yr holl geisiadau a gafwyd gan y gwasanaethau am arian cyfalaf yn 2015/16 ac oherwydd y cafwyd cymaint o geisiadau, nid yw 80% yn fforddiadwy. O'r herwydd, sefydlwyd trefn restrol fel y gall Aelodau lunio barn ar y prosiectau hynny a fydd yn mynd yn eu blaenau. Mae'r system yn ymwneud â gwerthuso pob cais am arian yn seiliedig ar y modd y mae'n cyflawni yn erbyn amcanion a blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor; y lefel o risg gorfforaethol y maent yn eu lliniaru; y modd y maent yn bodloni cyfrifoldebau statudol, e.e. Y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd; lefel y cyllid cyfatebol a all fod ar gael; yr effaith ar y gyllideb refeniw neu'r potensial o ran gwario i arbed ac ansawdd y trefniadau rheoli prosiect. Er mwyn mwyn mynd i'r afael â'r llithriad sydd wedi bod yn digwydd ar raddfa fawr mewn perthynas â'r rhaglen gyfalaf yn y gorffennol, bwriedir y bydd adroddiadau monitro cynnydd mewn perthynas â'r prosiectau a gymeradwyir yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd i'r Pwyllgor Gwaith a byddir yn gofyn i'r rheolydd gwasanaeth perthnasol ddarparu atborth ar ei gyfer.

Cynhaliwyd ymarfer sgorio cychwynnol gan y Gwasanaeth Cyllid a dilyswyd y sgorau wedyn gan grŵp ac arno swyddogion o wasanaethau ar draws y Cyngor ac mae'r grŵp hwnnw wedi cynhyrchu rhestr o brosiectau yn nhrefn ranc a fyddai, fe dybir, yn bodloni amcanion y Cyngor orau. Nid yw unrhyw un o'r prosiectau nad ydynt wedi eu cynnwys yn y rhestr o ddeg prosiect sydd ar y brig yn rhai dibwys ac efallai y bydd gwahaniaeth barn o ran y modd y cawsant eu blaenoriaethu.

Roedd yr Aelod Portffolio Cyllid yn cefnogi'r sylwadau a wnaed a dywedodd bod effeithiolrwydd yr Awdurdod o ran cael gwared ar asedau hefyd yn ystyriaeth o ran dod â derbynebiadau cyfalaf i mewn ac y gall hyn, ynghyd â ffactorau eraill megis cynnydd a graddfa o ran gwariant cyfalaf arwain at elfen o hyblygrwydd a fydd, efallai, yn caniatáu ystyried rhai o'r prosiectau eraill.

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad a chodwyd y materion isod mewn perthynas â'r wybodaeth a gyflwynwyd–

- A fu ymgynghori a sgriwtini mewn perthynas â'r ffactorau pwysoliad. Mynegwyd rhywfaint o amheuaeth o ran y pwysoliad a briodolwyd i rai ffactorau penodol o'u cymharu ag eraill a mynegwyd y farn bod y gofynion i gydymffurfio gyda chyfrifoldebau Iechyd statudol a Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, er enghraifft, wedi cael eu tan-bwysoli o gymharu â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor nad oedd y fethodoleg wedi cael ei sgriwtineiddio'n ffurfiol ymlaen llaw. Pwysleisiodd ei bod yn bwysig hefyd pwysoli prosiectau datblygiadau sy'n mynd â'r cyngor yn ei flaen fel sefydliad corfforaethol o gymharu â gweithgareddau gweithredol dydd i ddydd y mae darpariaeth ar eu cyfer hefyd yn y gyllideb refeniw.

Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro mai Gweithgor o Swyddogion a oedd wedi llunio'r pwysoliadau yn unol ag arferion gorau mewn awdurdodau eraill. Fodd bynnag, y cyfan y mae hyn yn ei wneud yw darparu rhestr flaenoriaeth ar gyfer prosiectau a gellir newid y drefn honno yn unol ag asesiad yr Aelodau o'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy. Gellir dod â'r

pwysoliadau ymlaen i'r Aelodau eu sgriwtineiddio fel rhan o'r broses o gynllunio ar gyfer rhaglen gyfalaf y flwyddyn nesaf. O ran y meini prawf ar gyfer cydymffurfio gyda chyfrifoldebau statudol, mae amrediad o ymrwymiadau statudol, gyda rhai ohonynt yn cael bron dim effaith ac eraill a all olygu'r gwahaniaeth rhwng byw a marw. Petai sefyllfa'n codi lle yr oedd risg o ran diogelwch neu un a oedd yn peryglu bywyd, yna ni fyddai'r drefn ranc yn berthnasol a byddai angen rhoi sylw i'r sefyllfa yn ddi-gwestiwn. Nid ymarfer amserlennu yw rancio prosiectau lle deuir i farn ynghylch a yw materion a all fod yn beryglus yn llai pwysig na'r rheiny o natur gosmetig neu sy'n ymwneud â moderneiddio'r Cyngor.

- Roedd y Pwyllgor yn cwestiynu cynnwys prosiect 7 (Gweithio'n Gallach) a phrosiect 8 (Adnewyddu Cerbydau) ymhlith y deg prosiect a oedd ar y brig o ran y drefn ranc ar gyfer gweithredu arnynt a hynny ar draul prosiect 13 (Ailweirio Adeiladau Addysgol). Nododd y Pwyllgor bod rhaid iddo, os oedd am gymeradwyo' rhaglen gyfalaf, gae sicrwydd bod lefel y risg sydd ynghlwm â phrosiectau wedi cael ei hasesu'n gywir a'i hadlewyrchu'n ddigonol. Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylid cynnwys Prosiect 13 ymysg y prosiectau sydd ar y brig ar gyfer eu cymeradwyo.

Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro y gall ailweirio gynnwys amrediad o weithgareddau o fân-addasiadau i sefyllfaoedd lle mae angen gweithredu ar frys oherwydd peryglon. Dywedodd y Swyddog ei fod, mewn perthynas â phrosiectau 13 a 19 (adnewyddu toiledau mewn ysgolion), wedi gofyn am ddadansoddiad i nodi ym mha adeiladau unigol y mae'r angen mwyaf ac y byddai hynny'n caniatáu i'r prosiectau gael eu haddasu.

- Nododd y Pwyllgor na fu'r un lefel o ymgysylltiad gydag Aelodau ynglŷn â'r cynigion ar y Rhaglen Gyfalaf o gymharu â'r Gyllideb Refeniw a bod hynny'n wendid. Dywedodd y Pwyllgor y byddai sesiwn friffio ymlaen llaw wedi bod o gymorth i ddeall yn well y rhesymeg a'r fethodoleg ar gyfer gwerthuso prosiectau gyda hynny'n ychwanegu at y sgôp a'r cyfle ar gyfer asesu rhinweddau opsiynau gwahanol.

  Wrth gydnabod y pwynt, dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid bod y broses ar gyfer penderfynu ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2015/16 wedi bod yn fwy trefnus a thryloyw nag y bu yn y gorffennol. Dywedodd y byddai'n rhaid, wrth ychwanegu prosiectau at y rhestr, dynnu rhai arall yn ôl neu, fel arall, byddai'n rhaid cynyddu ymrwymiadau benthyca'r Awdurdod a'r costau sydd ynghlwm â hynny, er mwyn talu am y prosiectau hynny.

- Mewn perthynas â'r Prosiect Gweithio'n Gallach, gofynnodd y Pwyllgor a fyddai modd gwario cyfanswm yr arian sydd wedi ei neilltuo fesul tipyn yn ystod oes y prosiect ac os gwyddys bod swm penodol ar gael i'w wario bob blwyddyn yn ystod y prosiect a bod hynny wedi ei gytuno, yna a fyddai hynny'n caniatáu darparu ar gyfer prosiectau eraill, h.y. Prosiect 13 (Ailweirio Adeiladau Addysgol).

  Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro fod angen cynllun prosiect clir a phendant gydag amserlen a dyddiadau cau penodol ar gyfer y Prosiect Gweithio'n Gallach fel y gellir monitro'r prosiect. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr y bydd modd gwario fesul tipyn dros gyfnod y prosiect unwaith y bydd y cynllun manwl wedi'i gwblhau.

  Ar y sail honno, gofynnodd y Pwyllgor a fyddai modd ychwanegu Prosiect 13 at y rhestr o brosiectau cyfalaf a gyflwynwyd ar gyfer eu cymeradwyo.

  Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro ei fod yn cydnabod y pryderon mewn perthynas â Phrosiect 13 ynghyd â'r pryderon sydd wedi cael eu mynegi mewn man arall ynghylch Prosiect 19. Dywedodd y Swyddog y byddai'n fodlon ymchwilio i weld a oes unrhyw gyllid ychwanegol ar gael a fyddai'n caniatáu ymgymryd â'r prosiectau hynny yn ychwanegol at y rhai sydd ar y rhestr. O safbwynt yr egwyddor cyffredinol mewn perthynas â'r modd y cafodd cynigion ar gyfer y rhaglen gyfalaf eu rheoli a'u cyflwyno o ran ymgynghoriad ac ymgysylltiad, cynhelir adolygiad o'r broses a ddilynwyd yn ystod y misoedd diwethaf ar gyfer gosod y gyllideb er mwyn nodi unrhyw newidiadau y bydd angen eu gwneud i hwyluso'r broses ar gyfer y flwyddyn nesaf gan gynnwys ymgysylltiad gwell o du'r Aelodau gyda'r Rhaglen Gyfalaf.

  **Penderfynwyd –**



DRAFT

- **Bod y Pwyllgor o'r farn y dylid cynnwys Prosiect 13 (Ailweirio Adeiladau Addysgol) ar y rhestr o gynlluniau cyfalaf a gyflwynwyd ar gyfer eu cymeradwyo ac yn croesawu'r cynnig gan y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro i ymchwilio i ffrydiau cyllido eraill fel y gellir ymgymryd â Phrosiect 13.**
- **Bod y Pwyllgor yn argymell yn gryf bod y matrics a'r meini prawf pwysoli ar gyfer gwerthuso yn cael eu sgriwtinieiddo ymlaen llaw fel rhan o'r broses o gynllunio'r gyllideb ar gyfer 2016/17.**
- **Bod y Pwyllgor hefyd yn argymell y dylid adolygu ymgysylltiad yr Aelodau gyda'r Rhaglen Gyfalaf er mwyn sicrhau fod yr Aelodau'n cael mewnbwn gweithredol yn ystod holl gamau'r broses o gynllunio'r gyllideb.**

**4 CYNIGION AR GYFER CYLLIDEB 2015/6 – YMATEB I'R YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS**

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor - adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr yn nodi'r ymateb i'r ymarfer Ymgynghori ar y Gyllideb - Cwrdd â'r heriau: Ein Cynigion Cychwynnol ar gyfer Cyllideb 2015/16 a chanlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw.

Dywedodd y Rheolwr cynllunio Busnes y cafwyd 433 o ymatebion i'r drafodaeth Gwneud Gwahaniaeth a gynhaliwyd yn ystod yr hydref 2014 lle gofynnwyd am farn y cyhoedd ynghylch y meysydd hynny y dylai'r Awdurdod ganolbwyntio ei ymdrechion arnynt yn ystod y tair blynedd nesaf ac y cafwyd 73 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar gyllideb 2015/16, Cwrdd â'r Heriau. Roedd ymatebion gan y Cynghorau Tref a Chymuned yn dwyn sylw at y pryderon penodol a amlinellwyd yn yr adroddiad. Er mai nifer fechan a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y gyllideb o gymharu â phoblogaeth yr Ynys, gellir eu dehongli fel bod cynigion cyllidebol y Cyngor, yn gyffredinol, yn cyd-fynd â disgwyliadau'r dinasyddion.

Nododd y Pwyllgor fod y nifer isel yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar gynigion cyllidebol 2015/16 yn siomedig ac awgrymwyd nad oedd yn cynrychioli barn trigolion Ynys Môn.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad fel gwybodaeth heb unrhyw sylwadau pellach.**

**DIM CAMAU PELLACH YN CODI**

**5 HUNANASESIAD CORFFORAETHOL**

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor – adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr yn ymgorffori adroddiad Hunanasesiad Ynys Môn.

Soniodd y Dirprwy Brif Weithredwr am y fethodoleg a'r dull o ymdrin â'r hunanasesiad sy'n darparu datganiad sefyllfa ar y cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod o ran datblygu fel sefydliad dros y 20 mis diwethaf a'i fod yn seiliedig ar y chwe thema allweddol a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol ac y rhoddwyd iddynt ddynodiad CAG fel arwydd o'r sefyllfa a'r cynnydd a wnaed.

Cafodd y Pwyllgor y cyfle i ofyn cwestiynau i'r Swyddog ar yr hunanasesiad a chodwyd materion mewn perthynas ag asesu risg; datblygu pobl, hyfforddiant a chydraddoldeb o ran lwfansau cynhaliaeth.

Dywedodd yr Arweinydd y gwnaed ymdrech yn yr hunanasesiad i gyflwyno persbectif cytbwys ac y byddir yn cyflwyno Cynllun Gweithredu fel y gellir gwneud cynnydd pellach.

**Penderfynwyd argymell y gwelliannau a nodwyd yn yr Hunanasesiad i'r Pwyllgor Gwaith a chytuno i fonitro cydymffurfiaeth gyda'r camau gweithredu hyn bob chwe mis ac i ddal y Prif Weithredwr i gyfrif am eu cyflawni.**

**GWEITHREDU: Y Rheolydd Sgriwtini i drefnu adolygiadau cynnydd 6 mis mewn perthynas â rhaglen waith y Pwyllgor.**

**Y Cynghorydd G.O. Jones**
**Is-gadeirydd (Yn y Gadair)**

DRAFT

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd G.O. Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Jim Evans, Victor Hughes, Llinos Medi Huws, R. Llewelyn Jones |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) (ar gyfer eitem 6 yn unig)<br>Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau (GJ) (ar gyfer eitem 3 yn unig)<br>Uwch Gyfrifydd (Cynllunio Strategol) (BD) (ar gyfer eitem 4 yn unig)<br>Cyfrifydd Cyfalaf a Rheoli Trysorlys (GR) (ar gyfer eitem 5 yn unig)<br>Rheolwr Sgriwtini (BS)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Lewis Davies, Ann Griffith |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Y Cynghorydd H. Eifion Jones (Deilydd Portffolio Cyllid), Cynghorydd Alwyn Rowlands (Deilydd Portffolio Perfformiad Trawsnewid, Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau Dynol) J. Huw Jones (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro) |

---

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod ac estynnodd groeso arbennig i'r Cynghorydd Jim Evans oedd yn y cyfarfod ar ôl cyfnod o anhwylder.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD**

Cyfeiriodd y Cadeirydd ar y materion a ganlyn –

- Y byddai ef a'r Rheolwr Sgriwtini a'r Swyddog Sgriwtini yn mynychu cynhadledd (Llawer o Ddwylo - Rhannu Atebolrwydd Cyhoeddus yng Nghymru) yn Llandrindod Ddydd Gwener 27 Mawrth 2015 a byddai'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn dilyn hynny ar sylwedd y gynhadledd.
- Sgriwtini'r Gyllideb. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn siomedig bod yr adroddiad Sgriwtini Cyllideb a luniwyd i adlewyrchu gwerthusiad y Pwyllgor hwn o gynigion Cyllideb 2015/16 y Pwyllgor Gwaith o'i gyfarfodydd ar 3 a 10 Chwefror fel rhan o'r broses ymgynghori ar y Gyllideb ( oedd wedi eu cylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor) heb ei gyflwyno i gyfarfod Cyllideb y Pwyllgor Gwaith ar 16 Chwefror. Nid oedd y wybodaeth a gyflwynwyd i'r cyfarfod hwnnw yn ei farn ef ond wedi rhoi yn rhannol safbwyntiau'r Pwyllgor ynglŷn â'r cynigion ac nid oedd yn adlewyrchiad llawn o atborth a chyfraniad y Pwyllgor. Cyfeiriodd at yr amserlen ar gyfer adrodd yn arwain i fyny at gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 16 Chwefror a'r materion oedd wedi codi o'r cyfarfod hwnnw, a materion eraill ar wahân i'r rheini a oedd wedi arwain at beidio â chyflwyno'r adroddiad Sgriwtini Cyllideb gwreiddiol. Fodd bynnag, roedd wedi cael cyfle i annerch y Pwyllgor Gwaith ar 16 Chwefror ac roedd wedi cyfleu prif neges yr adroddiad gwreiddiol i'r cyfarfod hwnnw a hefyd sylwadau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol mewn perthynas â chynigion Cyllideb 2015/16.

## 3 DILEU DYLEDION

Cyflwynwyd er ystyriaeth a sylwadau'r Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro yn nodi'r dyledion dros £5,000 oedd yn cael eu hargymell ar gyfer eu dileu. Ynghlwm yn Atodiadau B, C a CH roedd dadansoddiad o werth y dyledion a godwyd, yr hyn oedd wedi cael ei gasglu a hefyd y dyledion fyddai'n cael eu dileu ar gyfer amrywiol Gredydwyr, Treth Gyngor a Threthi Busnes.

Dywedodd y Deilydd Portffolio Cyllid ei fod yn credu ei bod yn briodol y dylai'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol werthuso a ellid dysgu gwersi o restr yr Awdurdod o ddyledwyr yn nhermau rheoli dyledion yn y dyfodol cyn i'r dyledion hynny gael eu dileu gan y Deilydd Portffolio Cyllid a'r Swyddog Adran 151 o dan eu pwerau dirprwyedig, ac yn ddelfrydol byddai'r dasg honno wedi ei chwblhau erbyn diwedd y mis.

Mewn ymateb i sylw a wnaed gan y Cadeirydd nad oedd wedi deall bod yn rhaid gwneud penderfyniad i ddileu'r dyledion erbyn mis Ebrill ac y byddai hynny'n ei gwneud yn anymarferol i'r Pwyllgor ddilyn y cwrs gweithredu yr oedd wedi ei fwriadu ac a gytunwyd yn y cyfarfod briffio cyn y cyfarfod i sefydlu panel i sgriwtineiddio'r dyledion mewn manylder, cadarnhaodd y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro y byddai'n well pe bai'r dyledion yn cael eu dileu erbyn yr amser hwnnw fel y gellir gwneud cyfrif amdanynt yn y datganiad cyfrifon am y flwyddyn ariannol gyfredol. Tra bod sefydlu panel i ystyried dileu dyledion a rheoli dyled yn rhywbeth rhesymol iawn, roedd cynnig ei fod hefyd yn ystyried y dyledion unigol cyn iddynt gael eu dileu yn rhywbeth allai fod yn fwy problemus gan ei fod yn golygu y byddai'n rhaid i'r dyledion hynny, pe na chaent eu dileu erbyn 31 Mawrth orfod cael eu cario fel dyledion heb eu casglu ar y fantolen ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Yn y drafodaeth a dilynodd ar yr adroddiad, fe wnaed y pwyntiau cyffredinol a ganlyn –

- Nododd y Pwyllgor na fyddai unrhyw bwrpas buddiol iddo ystyried mewn manylder y dyledion yr oedd eu hadennill erbyn hyn wedi ei wahardd drwy statud ac fe ddylai felly gyfyngu ei sylw i'r dyledion gweddilliol oedd ar y rhestr.
- Yr oedd y Pwyllgor yn siomedig bod cyrff cyhoeddus wedi eu cynnwys ar y rhestr o ddyledwyr.
- Roedd y Pwyllgor yn bryderus gydag oed rhai o'r dyledion ar y rhestr a hefyd hyd yr amser yr oeddent wedi parhau ar gofnodiadau'r Cyngor a hynny'n dangos diffyg gweithredu ar ran yr Awdurdod drwy iddo beidio â delio â hwy naill ai drwy broses gyfreithiol neu fel arall wrth eu dileu.
- Roedd y Pwyllgor hefyd yn bryderus gyda nifer o enghreifftiau o ddiffyg gweithredu ac/neu oedi gyda gweithredu ar ran y Cyngor a hynny wedi golygu methiant i adennill dyled pryd y gallai ei hadennill fod wedi bod yn bosibl pe bai camau priodol wedi'u cymryd mewn da bryd.
- Ceisiodd y Pwyllgor gael sicrwydd oherwydd iddo ystyried adroddiad tebyg ar y sefyllfa gyda'r dyledion yn 2013/14 lle y dogfennwyd rhestr o ddyledion oedd i'w dileu, a bod camau rhagweithiol yn awr yn cael eu cymryd yn yr Awdurdod i fynd i'r afael â rheoli dyled.
- Y byddai panel o'r pwyllgor hwn yr oedd bwriad i'w sefydlu yn edrych ar y sefyllfa gyda'r dyledion mewn manylder gyda golwg ar gael gwell dealltwriaeth o'r rhesymau sylfaenol paham yr oedd y dyledion mewn rhai achosion wedi eu caniatáu i sefyll am nifer o flynyddoedd fel y gellid osgoi sefyllfa fel hyn eto yn y dyfodol gyda gwell mesurau rheoli dyled a phroses briodol ar gyfer delio â dyled.

Roedd y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro yn cydnabod y pwyntiau a wnaed a dywedodd gan gyfeirio at y dyledion amrywiol, bod gan yr Awdurdod ar yr amser y cafodd ef ei benodi ym Mai 2014 ganran uchel o ddyledion heb eu casglu ar ei lyfrau oedd â chyfanswm o tua £4m gyda dim ond 1% yn ddyled gyfredol h.y. o fewn 30 diwrnod. Mae yna, felly, waith sylweddol i'w wneud i gywiro'r sefyllfa honno ac am y rheswm hwnnw ni wnaed unrhyw ymdrech i ddileu dyledion y flwyddyn hon gyda'r pwyslais yn cael ei roi yn hytrach ar gasglu dyled lle roedd hynny'n bosibl. Yng nghyd-destun dyledion cyffredinol o £4m ym Mai 2014 roedd y cyfanswm yn awr wedi ei leihau i £3 a hynny'n golygu bod swm sylweddol o arian wedi ei ddwyn i mewn i'r Cyngor ac roedd y ganran oedd yn ddyledus ac a arferai fod tua 1% yn awr tua 40%. Nododd y Swyddog ei fod yn hyderus y gellid gwella'r sefyllfa yn sylweddol ond ei bod yn hynod o annhebygol y byddai unrhyw sefydliad fyddai â rhan mewn casglu dyledion yn gallu cyflawni cyfradd gasglu 100%, ac y bydd yna bob amser beth dyled y bydd yn rhaid ei dileu. Serch hynny, y disgwyl yw bydd yr Awdurdod yn gallu cyflawni graddfa gasglu uchel iawn. O ystyried y bydd yna bob amser rhyw

raddfa o ddileu ystyrir ei fod felly yn ymarfer rheoli da ac yn fater o hwsmonaeth dda i fynd drwy broses briodol o ddileu dyled nas gellir ei chasglu oddi ar y llyfrau mor fuan ag y bo hynny'n ymarferol; yn achos yr Awdurdod nid oedd hynny wedi digwydd ac y mae'n rhaid i'r dyledion hynny yn awr gael eu clirio. Roedd y rhan fwyaf o'r ddyled hirhoedlog na ellid ei chasglu a oedd yn dod o fewn pwerau dirprwyedig y Swyddog Adran 151 wedi ei dileu. Yn ddelfrydol fe ddylid cael cylch rheolaidd o glirio dyledion na ellir eu gorfodi'n gyfreithiol a gobeithir y bydd hynny wedi ei sefydlu o'r flwyddyn nesaf ymlaen. Roedd yr adroddiad yn ffurfio rhan o weithgaredd cadw tŷ sydd wedi gwneud camau breision ond nad yw eto wedi'i gwblhau ac sydd eisoes wedi dod â newid yn statws ariannol y Cyngor. O safbwynt cyrff cyhoeddus mewn dyled i'r Cyngor, dywedodd y Swyddog bod y ddyled mewn rhai achosion yn un sydd wedi sefyll am gyn hired nad yw'r gwaith papur cefnogol ar gael a hynny'n golygu na all gael ei gorfodi mewn cyfraith ac ni fydd y corff sydd â'r ddyled yn talu oherwydd absenoldeb unrhyw ddogfennau i brofi'r ddyled. Weithiau ni fydd y corff sydd â'r ddyled yn bodoli mwyach gyda'r ddyled wedi trosglwyddo i sefydliad olynol sy'n gwneud y broses orfodi yn fwy anodd. Er hynny, mae'r Awdurdod wedi cymryd agwedd gadarn tuag at y dyledion hyn ac wedi llwyddo i ddod â mwy o arian i mewn nag oedd wedi ei ragweld. Mater ydyw ar gyfer rheolaeth ariannol pob sefydliad penodol i orfodi ei ddyled ei hun a dyna beth y mae'r Awdurdod yn awr yn ceisio ei wneud.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r adroddiad a'r sefyllfa ynglŷn â'r dyledion oedd i'w dileu.**
- **Bod Panel o'r Pwyllgor hwn yn cael ei sefydlu ac yn cynnwys yr Aelodau a nodir isod i edrych mewn mwy o fanylder ar ddileu dyledion a hefyd reoli dyled yn yr Awdurdod:**

  **Cynghorwyr Jim Evans, R. Llewelyn Jones, Llinos Medi Huws a R. Meirion Jones gyda gwahoddiad agored i'r Deilydd Portffolio Cyllid fynychu.**

  **CAMAU GWEITHREDU YN CODI: Y Rheolwr Sgriwtini i gydlynu'r gwaith o sefydlu'r panel a rhestr o'i gyfarfodydd.**

**4 MONITRO CYLLIDEB – CYLLIDEB REFENIW CHWARTER 3 2014/15**

Cyflwynwyd i ystyriaeth y Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro mewn perthynas â sefyllfa'r Gyllideb Refeniw ar ddiwedd Chwarter 3 2014/15.

Cynigiodd y Cadeirydd, a chytunwyd, bod yr eitem hon a'r ddwy eitem oedd i ddilyn ar y rhaglen h.y. **Eitem 4 - Monitro'r Gyllideb - Cyllideb Gyfalaf Chwarter 3 2014/15**, ac **Eitem 5 - Rheoli Perfformiad - Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarter 3 2014/15** yn cael eu hystyried ar y cyd fel cyfres o ddata perfformiad ar gyfer Chwarter 3 2014/15.

Nododd y Pwyllgor bod y tri adroddiad wedi'u cyflwyno a'u hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 16 Chwefror ac roedd y Pwyllgor yn teimlo bod hynny'n anorfod wedi mynd â'r min oddi ar unrhyw faterion y byddai'n dymuno eu hamlygu neu sylwadau y byddai'n dymuno eu gwneud gan y byddai'n rhy hwyr. Ceisiodd y Pwyllgor sefydlu pam yr oedd y drefn o adrodd yn ôl wedi torri i lawr yn Chwarter 3 o ran peri bod y wybodaeth angenrheidiol ar gael i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar yr amser iawn fel y gallai roi mewnbwn cyn cyflwyno'r wybodaeth i'r Pwyllgor Gwaith.

Awgrymodd y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro bod y canolbwyntio ymdrechion a fu i geisio cwblhau cyllideb statudol 2015/16 wedi bod yn ffactor yn oedi cyflwyno'r data perfformiad Chwarter 3 i gyfarfod 10ed Chwefror o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Rhoddodd sicrwydd y byddai'r Gwasanaeth Cyllid yn gwneud ei orau i gynhyrchu adroddiadau yn unol â gofynion y Pwyllgor a dywedodd hefyd bod ystyriaeth wedi ei rhoi i newid y patrwm o adroddiadau misol ar y gyllideb fel y ceir llif mwy aml o wybodaeth gyllidebol pan fydd y system ar ei thraed.

Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini bod y drefn adrodd wedi'i chytuno ar ddechrau'r flwyddyn ddinesig ac wedi'i hymgorffori yn rhaglen waith y Pwyllgor ym Mai 2014. Fodd bynnag, yn ystod cyfnod Chwarter 3, roedd swm sylweddol o waith paratoadol ychwanegol ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol wedi ei wneud gan y Rheolwr Cynllunio Rhaglen a Busnes ac roedd llithriad gyda chyflwyno adroddiadau i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth gyda hynny'n golygu bod yr adroddiadau hynny wedyn



DRAFT

wedi colli'r dyddiad cyhoeddi rhaglen ar gyfer cyfarfod 10ed Chwefror o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

Nododd y Pwyllgor yr esboniadau a roddwyd fel rheswm dros fethu'r dyddiadau cau ar gyfer ei gyfarfod ar 10ed Chwefror ac fe wnaed y pwyntiau a ganlyn –

- O ystyried bod y drefn o adrodd yn ôl ar berfformiad wedi'i sefydlu a'i chytuno a'i bod yn wybyddus a'i bod wedi ei dogfennu a'i hatgyfnerthu drwy Flaenraglen waith y Pwyllgor, roedd y Pwyllgor yn siomedig nad oedd y data perfformiad cynlluniedig ar gael ar gyfer ei gyfarfod mis Chwefror.
- Yn ogystal â dal y Pwyllgor Gwaith i gyfrif am benderfyniadau a wnaed, roedd cyfrifoldebau sgriwtini hefyd yn golygu cyfrannu'n rhagweithiol i faterion cyn iddynt gael eu hystyried / cwblhau gan y Pwyllgor Gwaith, ac er mwyn gallu gwneud hyn yn effeithiol, rhaid i'r Cyngor dderbyn y wybodaeth mewn da bryd.
- Gan gyfeirio'n benodol at argymhelliad 1.1.3 yr Adroddiad Cerdyn Sgorio Monitro, ceisiodd y Pwyllgor gael eglurhad o rôl yr UDA o safbwynt monitro ariannol y gyllideb 2014/15 mewn perthynas â gwaith Panel Canlyniad Sgriwtini Arbedion Cyllidebol. Eglurodd y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 Dros Dro - lle y ceir anghydbwyseddau ariannol, bydd y rhain yn cael eu hadrodd i'r UDA yn y lle cyntaf - gofynnodd y Pwyllgor Gwaith i'r UDA ym mis Tachwedd 2014 lunio cynigion i ddod â chyllideb 2014/15 yn ôl i drefn - a bydd yn parhau â'i sgriwtini rheolaidd o gyllideb 2014/15 er mwyn nodi unrhyw batrymau a phryderon. Bu'r Panel Canlyniad Sgriwtini Arbedion Cyllidebol yn canolbwyntio ar allu darparu'r arbedion a nodwyd ar gyfer 2014/15 gan nodi ei fod yn dymuno ailadrodd yr ymarfer yn 2015/16 ac, er bod y gyfres o arbedion a nodwyd ar gyfer 2015/26 yn fwy cadarn, bydd unrhyw awgrymiadau y gall y Panel Sgriwtini eu gwneud yng nghyswllt y broses honno yn cael eu hanfon ymlaen i'r UDA a thrwy hynny gadarnhau'r cyswllt rhwng y ddau.

**Penderfynwyd nodi cynnwys y tri Adroddiad Monitro Perfformiad am Chwarter 3.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Rheolwr Sgriwtini i gysylltu â'r Gwasanaeth Cyllid a'r Rheolwr Cynllunio Rhaglen a Busnes i sicrhau bod data Perfformiad/Cyllideb Chwarter 4 ar gael mewn da bryd ar gyfer y Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 11 Mai.**

## 5 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Penderfynwyd o Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.

## 6 PANEL CANLYNIAD SGRWITINI – ABSENOLDEB SALWCH

Cynigiodd y Cadeirydd, ac fe gytunwyd y gellid cyplu ystyried yr eitem hon ag **eitem 10 ar y rhaglen – Panel Canlyniad Sgriwtini: Arbedion Effeithlonrwydd.**

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Adroddiadau'r Panel Canlyniad Sgriwtini – Absenoldeb Salwch ac adroddiad y Panel Canlyniad Sgriwtini: Arbedion Effeithlonrwydd a hefyd sylw'r Swyddog ar gynnwys y ddau adroddiad fel atodiadau iddynt.

Eglurodd y Cadeirydd bod y broses o gyflwyno adroddiadau'r ddau Banel Canlyniad Sgriwtini i'r Pwyllgor Gwaith wedi'i hoedi hyd nes y gellid gwirio a chytuno ar eu cynnwys a bod yr adroddiadau yn awr wedi eu hamserlennu i'w cyflwyno i gyfarfod mis Ebrill o'r Pwyllgor Gwaith. Roedd yr adroddiadau drafft wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 13 Ionawr 2015.

Rhoddodd y Prif Weithredwr, y Pennaeth Adnoddau Dros Dro ac yn achos adroddiad y Panel Canlyniad Sgriwtini ar Absenoldeb Salwch, y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) eu safbwyntiau proffesiynol hwy ar yr adroddiadau a lle yr oeddent wedi cynnig mewnbwn, rhoddasant eglurhad o'u sylwadau.

Mewn trafodaeth fanwl, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r sylwadau a wnaed gan roi sylw arbennig i sut y mae adroddiadau'r Pwyllgor Sgriwtini / Panel canlyniad Sgriwtini, oherwydd eu bod yn cael eu harwain gan Aelodau yn hytrach na chan Swyddogion, yn ffitio i mewn i'r broses adrodd yn ôl gorfforaethol o safbwynt drafftio a chwblhau adroddiadau i'r Pwyllgor Gwaith yng nghyswllt amseru

DRAFT

gwaith ymgynghori â swyddogion statudol a swyddogion eraill a phartïon perthnasol ac wedyn, o ran sicrhau cadarnrwydd y wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith. Roedd y Cadeirydd yn cydnabod y byddai'n dda pe bai ymgynghori wedi digwydd gyda'r swyddogion perthnasol cyn i'r adroddiadau drafft gael eu rhyddhau i Aelodau'r Pwyllgor, fel y gallent hwy wedyn benderfynu a oeddent yn cytuno â'r sylwadau a wnaed cyn cwblhau'r adroddiadau i'r Pwyllgor Gwaith.

**Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd awdurdodi'r Panel Canlyniad Sgriwtini - Absenoldeb Salwch a'r Panel Canlyniad Sgriwtini – Arbedion Effeithlonrwydd ystyried sylwadau / addasiadau'r Swyddog o'u hadroddiadau perthnasol a dod i benderfyniad ar y fersiynau terfynol i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith.**

**Cynghorydd R. Meirion Jones**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Sgriwtini** |
| **Dyddiad:** | **16.4.15** |
| **Pwnc:** | **Dogfen Cyflawni Blynyddol 15/16** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Alwyn Rowlands** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Gethin Morgan**<br>**752111**<br>**GethinMorgan@anglesey.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Ddim yn berthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini graffu a herio cynnwys y Ddogfen Cyflawni Blynyddol fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar y 20fed o Ebrill, 2015 gyda argymhelliad i roi'r hawl i Swyddogion, mewn ymgynghoriad a'r Deilydd Portffolio, i ymgymryd ar dasg o orffen y cynllun drafft ac argymell i'r Cyngor llawn fabwysiadu y Ddogfen Cyflawni Blynyddol ar gyfer 15/16.

Mae'r cynllun yn cydnabod y meysydd hynny o waith sydd wedi'i amserlennu ar gyfer y flwyddyn gyfredol o dan flaenoriaethau'r cynllun corfforaethol. Yn ychwanegol, y mae hefyd yn ymgorffori'r agweddau hynny o welliant (wedi eu blaenoriaethu) sy'n cael ei cydnabod yn yr hunan-asesiad diweddar (Ionawr 2015).

At ddibenion eglurder mae'r Ddogfen Cyflawni Blynyddol yn cael ei adnobod fel arall fel y Cynllun Gwella (a amlinellir yn y Cyfansoddiad).

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Nid oes unrhyw opsiynau eraill yn cael eu hystyried gan fod hyn yn rhan o'r Fframwaith Polisi sy'n nodi'r angen i ddogfen o'r fath gael ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn.

| |
|---|
| |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dangos y prif feysydd ar gyfer gwella a chyflawni blaenoriaethau corfforaethol y cyngor yn ystod 2015-16 sydd yn clirio'n swyddogaeth ni o wellhad parhaol sy'n cael ei gydnabod yn ofyniad statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol - Cymru 2009 a 2011. |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cytuno gyda'r cyfeiriad gweithredol ar gyfer 15/16 |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |

| | | |
|---|---|---|
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Dogfen Cyflawni Blynyddol 2015/16 |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Cynllun Corfforaethol 2013-17 fel a fabwysiadwyd gan y Cyngor llawn yn Rhagfyr 2013 |

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Dogfen Gyflawni Flynyddol
# (Cynllun Gwella)
# 2015/16
# DRAFFT

Cyngor Sir Ynys Môn
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW
Ffon: (01248) 752111

# DOGFEN GYFLAWNI FLYNYDDOL 2015-2016

# CYFLWYNIAD

Y **nod** ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn erbyn 2017 fel y dywedir yn ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2013-17 yw -

**“Y byddwn yn gyngor proffesiynol sy’n cael ei redeg yn dda, yn arloesol yn ein hymagwedd, yn ymrwymedig i ddatblygu ein pobl a phartneriaethau er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol o ansawdd da, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan ein dinasyddion”**

Er mwyn cyflawni'r nod hwnnw, fel Cyngor bydd angen i ni drawsnewid ein gwasanaethau. Rhan hanfodol o drawsnewid ein Cyngor fydd medru gwrando ar yr hyn mae ein dinasyddion, defnyddwyr ein gwasanaethau a busnesau yn ei feddwl – a gweithredu arno. Mae’r ddogfen hon yn amlinellu sut y byddwn yn cadw ein haddewidion yn ystod y flwyddyn nesaf (2014/15).

Mae’r gwaith mwyaf pellgyrhaeddol ar ymgynghori yr ydym erioed wedi’i wneud fel cyngor wedi cynorthwyo i greu’r cynllun hwn .

Yn ystod yr ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori ers 2012, gofynnwyd i ddinasyddion am eu barn ynglŷn â pha wasanaethau’r Cyngor sydd bwysicaf iddynt, a pha rai oedd yn llai pwysig yn eu barn nhw. Ar draws demograffeg, daearyddiaeth a’r mecanweithiau ymgynghori gwahanol y blaenoriaethau cyson yw:

- Cefnogi'r mwyaf bregus
- Datblygu'r Economi
- Codi safonau a moderneiddio ein hysgolion

Y blaenoriaethau hyn yw sail y meysydd ffocws yn ein Cynllun Corfforaethol sy’n amlinellu’r amcanion strategol dros y cyfnod 2013-2017. Hon yw’r ail flwyddyn i ni gynhyrchu Dogfen Gyflawni Flynyddol.

Mae’r ddogfen yn amlinellu sut y byddwn yn cyflawni ein haddewidion dros y 12 mis nesaf (2015/16) ac mae’n dangos ein parodrwydd a’n hymrwymiad i gwrdd â’n dyletswydd o welliant parhaus fel y disgwylir o Awdurdodau Lleol dan Fesur Llywodraeth Cymru 2009.

Byddwn yn monitro cyflawniad y themâu a’r canlyniadau a ganlyn yn barhaus trwy ein prosesau a’n gweithdrefnau rheoli perfformiad, gan gynnwys monitro dangosyddion perfformiad a gwybodaeth gefnogol arall ar sail reolaidd.



DRAFT

# Ein bod yn Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn

Mae pobl yn byw'n hirach ac fel y cyfryw, rydym yn disgwyl gweld cynnydd yn nifer y bobl dros 85 sy'n byw ar yr Ynys dros y 10 mlynedd nesaf *. Mae gan Ynys Môn un o'r poblogaethau pobl hŷn mwyaf yng Nghymru. Mae cynnydd hefyd yn niferoedd y bobl sydd â chyflyrau cymhleth tymor hir gan gynnwys dementia. Er mwyn darparu'r lefel angenrheidiol o gefnogaeth sydd ei hangen i gwrdd â'r cymhlethdodau cynyddol yn y galw (yn nhermau cyllid a gweithlu), mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo newid y ffordd y mae'n darparu gofal cymdeithasol i oedolion er mwyn sicrhau eu bod yn gynaliadwy yn awr ac felly hefyd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Er mwyn dechrau'r broses o drawsnewid, byddwn yn gwneud y canlynol yn ystod 2015/16.

**Sut byddwn yn gwneud hyn yn 2015/16?**

**Byddwn yn datblygu ac yn sefydlu ar y cyd â phartneriaid 2 gynllun tai gofal ychwanegol yng Ngogledd a chanol yr Ynys ac yn cynllunio ar gyfer cynllun tai gofal ychwanegol pellach yn Ne'r Ynys drwy:**

- Gweithredu fesul cam yn Llangefni ac yn y Gogledd trwy sicrhau partneriaid adeiladu, cymeradwyo dyluniadau terfynol a chychwyn gwaith adeiladu ar safleoedd.
- Bwrw ymlaen gyda'r rhaglen yn Ne'r Ynys trwy wneud penderfyniad ar y cynigion terfynol ynghylch: safleoedd tir, llunio achos busnes i'w gymeradwyo cyn cychwyn gwaith, nodi partneriaid Adeiladu cyn cymeradwyo'r dyluniadau terfynol a chychwyn gwaith adeiladu.

**Gwella ystod ac argaeledd gwasanaethau yn y gymuned ar gyfer pobl hŷn a fydd yn lleihau'r ddibyniaeth a'r angen am gartrefi gofal preswyl drwy:**

- Bydd rhoi ar waith y Cynllun Gweithredu ar gyfer "Lle i'w Alw'n Gartref" yn golygu ail-ganolbwyntio ar yr unigolyn a rhoi eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn a sicrhau gofal neu gymorth o ansawdd gwell o ganlyniad i faterion diogelu pan fyddant yn symud yn uniongyrchol o ysbyty i gartref gofal neu o gartref gofal arall. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant i staff i godi ymwybyddiaeth o ddementia a mynediad i Gofal Uwch Môn.
- Datblygu, cytuno a dechrau gweithredu model 'Hyb Cymunedol' erbyn Rhagfyr 2014, lle bydd ystod eang o gefnogaeth a gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan gymunedau lleol (ac yn aml yn anffurfiol) yn cael eu gwella a'u "cyd-gysylltu" fel bod gwell cefnogaeth a gofal yn cael ei darparu i'r person hŷn mewn angen gan a thrwy'r gymuned leol.
- Ymwreiddio'r model Un Pwynt Mynediad a fydd yn cefnogi mynediad mwy effeithiol i wybodaeth, cyngor a chymorth ac integreiddio unigolion gydag adnoddau lleol eraill.

**Ailddatblygu ein gwasanaeth ail-alluogi i gefnogi a helpu pobl i wella ac adennill annibyniaeth trwy ddefnyddio cynlluniau cymorth sy'n seiliedig ar ganlyniadau trwy:**

- Cryfhau'r farchnad a gweithredu rhaglen i allanoli gofal cartref ymhellach tra'n datblygu model arbenigol o ddarpariaeth fewnol.
- Sefydlu model cytunedig o ddarpariaeth gofal cartref gan yr Awdurdod Lleol a fydd yn darparu gwasanaeth ail-alluogi a chymorth dementia arbenigol.

**Mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd , datblygu trefniadau i reoli a darparu gwasanaethau ar y cyd, yn enwedig mewn perthynas â dementia, gwasanaethau pobl hŷn yn gyffredinol a chymorth i ofalwyr trwy:**

- Cyflwyno manyleb Gogledd Cymru ar gyfer darparu gofal preswyl wedi ei gyfoethogi ar gyfer pobl â dementia.
- Ymwreiddio gweithio amlddisgyblaethol o fewn y timau a gyd-leolwyd yn Llanfairpwll, Amlwch a Chaergybi i sicrhau ein bod yn ymateb i anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn y gymuned mewn dull amserol ac effeithlon.
- Datblygu integreiddiad gwell o wasanaethau Anabledd Dysgu gan gynnwys ystyried comisiynu ar y cyd a rhannu cyllidebau .

**Crynodeb:**

Wrth wireddu'r uchod, mi fyddwn, erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2015/16, wedi cwblhau'r holl waith cynllunio a'r holl brosesau ar gyfer cychwyn adeiladu dau gynllun gofal ychwanegol yn Amlwch a Llangefni ac wedi nodi trydydd safle yn ne'r ynys.

Byddwn hefyd wedi parhau i ganolbwyntio ar ein blaenoriaeth i ostwng yr angen am ofal preswyl trwy gynlluniau a pholisïau yn y gymuned megis "Lle i'w Alw'n gartref". Bydd hyn yn mynd law yn llaw â datblygu ein blaenoriaethau gofal cartref ac ail-alluogi arbenigol yn y maes dementia.

Byddwn hefyd wedi gwneud cynnydd o ran integreiddio arferion Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn y maes Anabledd Dysgu.

# Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi

Mae gwella'r economi leol, creu swyddi a gwella ffyniant ar gyfer trigolion lleol yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor Sir. Mae'r economi yn fater o bwys i lawer o bobl ac mae ein cymunedau yn credu bod creu swyddi newydd yn hollbwysig ar gyfer darparu sylfaen gadarn i wella ansawdd bywyd a gostwng anghyfartaleddau ar yr ynys. Er y cydnabyddir bod buddsoddiad gan y sector preifat yn yrrwr economaidd hollbwysig, mae gan y Cyngor rôl o ran sefydlu amgylchedd lle gall busnesau lleol dyfu a lle gall busnesau newydd ymsefydlu a ffynnu.

Bydd cydweithredu mwy ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol yn allweddol ar gyfer sicrhau cynnydd ein blaenoriaethau datblygu economaidd, yn arbennig felly mewn perthynas â llewyrch ein cymunedau gwledig a threfol a chefnogi anghenion sector twristiaeth yr ynys.

Mae'r Rhaglen Ynys Ynni a'r statws Parth Menter a ddynodwyd yn ddiweddar yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i greu swyddi newydd sylweddol yn sgil y buddsoddiad arfaethedig a photensial y sector ynni carbon isel i dyfu. Bydd y Cyngor yn edrych ar ddatblygu cynlluniau sy'n cynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc, gwella seilwaith a chefnogi'r gadwyn gyflenwi.

**Sut byddwn yn gwneud hyn yn 2015/16?**

**Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i gryfhau cystadleurwydd economi'r ynys drwy wella seilwaith , argaeledd sgiliau a chefnogi cwmnïau lleol drwy;**

Datblygu prosiectau i fanteisio i'r eithaf ar gyfleon adfywio rhanbarthol a lleol – o leiaf 10 o Achosion busnes/Astudiaethau Dichonoldeb cadarn ar gyfer y meysydd blaenoriaeth a ganlyn, gan gynnwys:

- Y Gadwyn Gyflenwi Ranbarthol
- Cymorth i Fusnesau
- Prosiect Safleoedd ac Eiddo Strategol (Cam 2)
- Isadeiledd Strategol Llangefni
- Isadeiledd Strategol Cyfleustodau
- Porth Ymwelwyr Ynys Gybi
- Cynlluniau Adfywio Ffisegol
- NDA Economaidd-Gymdeithasol (Cam 3)
- Twristiaeth Diwylliant a Threftadaeth Leol
- Twristiaeth Awyr Agored
- Twristiaeth Beicio
- Twristiaeth Bwyd Lleol a Chadwyni Cyflenwi
- Teithio Llesol yn Llangefni

- Creu 5 o swyddi newydd, diogelu 10 swydd a chynorthwyo 10 o fusnesau (newydd neu gyfredol) trwy Gronfa Fuddsoddi Caergybi

- Cydweithio gyda'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i wella cyfleon am swyddi, twf a ffyniant



DRAFT

- Manteisio ar gyfleon i ddenu cyllid Ewropeaidd a domestig trwy gyflwyno ceisiadau am gyllid allanol (gan gynnwys Cronfeydd Strwythurol UE 2014-2020 a'r Cynllun Datblygu Gwledig)

- Rhoi cymorth, arweiniad a chyngor i 50 o fusnesau ar yr ynys

**Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo delwedd a chryfderau arbennig Ynys Môn ar gyfer ymwelwyr drwy ei gefnogaeth i gynllun rheoli cyrchfan yr ynys drwy;**

- Cynnydd o 2% yn nifer yr ymweliadau gan dwristiaid yn ystod 2015-2016

- Sefydlu 6 o bwyntiau gwybodaeth newydd i dwristiaid mewn aneddiadau allweddol ar yr Ynys

- Cynnal 'Grand Depart' Taith Prydain 'Friends Life' ar 6 Medi

- Datblygu economi Mordeithiau'r ynys trwy groesawu 26 o longau Mordeithio (15,164 o deithwyr) i Borthladd Caergybi

- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a hyrwyddo delwedd a chryfderau hynod Ynys Môn

- Cynorthwyo a chefnogi pump o ddigwyddiadau twristiaeth lleol

- Gosod 400 o Angorfeydd bob blwyddyn a chynhyrchu £83,730 o incwm a chofrestru 1000 o gychod a badau dŵr personol (gan gynhyrchu £47,920 o incwm)

- Cynnal adolygiad o is-ddeddfau statudol arforol

**Gweithio gyda phartneriaid i oresgyn cyfyngiadau seilwaith (er enghraifft, lled band eang a thechnolegau symudol) i alluogi datblygiad, buddsoddi a chreu swyddi drwy;**

- Adeiladu 3 uned busnes newydd yn Llangefni

- Clirio 0.54 hectar o dir yn Llangefni ar gyfer ailddatblygu

- Cydweithio gyda Rhwydwaith Ynni Scottish Power i wella isadeiledd trydanol Ynys Môn

- Gweithio gyda Dŵr Cymru i nodi gwelliannau posibl i'r isadeiledd dŵr a charthffosiaeth yn Ynys Môn

- Cydweithio gyda datblygwyr sector preifat i sicrhau bod trigolion yr ynys yn gallu manteisio ar gyfleon lleol a rhanbarthol ar gyfer swyddi, twf a ffyniant

- Rheoli rhaglen cadwyn gyflenwi ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i sicrhau bod y rhanbarth yn medru manteisio ar gyfleon sy'n codi o'r sector ynni carbon isel



DRAFT

**Ymgymryd â'n cyfrifoldebau cynllunio yn effeithiol mewn perthynas â'r holl brosiectau mawr ar Ynys Môn, gan sicrhau bod yr effeithiau negyddol posibl yn cael eu lleihau i'r eithaf a sicrhau'r budd cymunedol mwyaf posib trwy:**

- Cydlynu a buddsoddi yn y Tîm Cyflawni ar gyfer Rhaglenni Ynni Mawr
- Sicrhau cyllid digonol ac amserol trwy Gytundebau Perfformiad Cynllunio fel bod datblygwyr yn cyfrannu at brosesau caniatâd cynllunio statudol a weithredir gan y Cyngor
- Sicrhau'r buddiannau economaidd-gymdeithasol mwyaf posib yn sgil datblygiadau mawr trwy'r broses gynllunio statudol
- Cydlynu a gweithredu gweithgareddau Rhaglen Ynys Ynni i gynorthwyo i sicrhau datblygiadau ynni mawr a dad-risgio prosiectau
- Nodi, diffinio a datblygu gweledigaeth a dyheadau Cyngor Sir Ynys Môn o ran sicrhau gwaddol yn sgil prosiectau ynni mawr (statudol ac anstatudol)
- Sicrhau cyllid digonol ac amserol trwy Gytundebau Perfformiad Cynllunio fel bod datblygwyr yn cyfrannu at brosesau caniatâd cynllunio statudol a weithredir gan y Cyngor
- Parhau i gydweithio gyda'r Adran ar gyfer Ynni a Newid Hinsawdd a Llywodraeth Cymru

**Gyrru adfywiad cymunedol gan ddatblygu cynlluniau tref a chymuned cyfannol ar gyfer y prif aneddiadau ar yr ynys gan roddi blaenoriaeth i Gaergybi, Llangefni ac Amlwch drwy;**

- Sicrhau'r buddiannau lleol mwyaf posib yn sgil prosiectau mawr arfaethedig trwy brosesau a gweithdrefnau anstatudol (gan gynnwys cyfraniadau budd cymunedol gwirfoddol)
- Sicrhau bod Caergybi'n manteisio'n llawn ar yr holl gyfleon Adfywio Economaidd mawr (yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru) drwy reoli a chydlynu'r Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid
- Denu £150,000 o fuddsoddiad sector preifat i mewn i Gaergybi
- Cefnogi Cynllun Adfywio Canol Tref Llangefni

**Crynodeb:**

Wrth weithredu'r uchod, rydym yn gobeithio y byddwn wedi medru cyflawni 10 o Achosion Busnes cadarn erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2015/16 ar gyfer gwahanol fentrau ar draws ystod o feysydd blaenoriaeth strategol (e.e. Isadeiledd Strategol Llangefni, Porth Ymwelwyr Ynys Gybi, Prosiectau'r Cynllun Datblygu Gwledig, Prosiectau Twristiaeth Diwylliant, Treftadaeth a Bwyd, Prosiectau Cadwyn Gyflenwi ac ati).

Rydym hefyd yn gobeithio y byddwn wedi medru creu neu ddiogelu nifer o swyddi trwy gefnogi busnesau newydd a chyfredol. Byddwn wedi parhau i ganolbwyntio ar dwristiaeth trwy gynnydd o



DRAFT

2% yn nifer yr ymwelwyr a sefydlu 6 o bwyntiau gwybodaeth newydd i dwristiaid a gosod 400 o Angorfeydd a chofrestru 1000 o gychod bob blwyddyn.

Byddwn hefyd wedi bwrw ymlaen gyda'r rhaglenni Ynys Ynni a'r rhaglenni parth menter i sicrhau cyflogaeth ychwanegol a gwaddol hirhoedlog ar gyfer Ynys Môn.  Yn ogystal, byddwn wedi canolbwyntio ymdrechion ar ein cynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ac wedi gwario £325,000 ar Swyddi a Busnes, £575,000 ar Gymuned Egnïol a £180,000 ar Ddatblygu Cynaliadwy.

DRAFT

# Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Ysgolion

Mae'r Cyngor eisiau i bob plentyn, pob person ifanc, pob dysgwr, lle bynnag y maent, waeth beth fo'u cefndir a'i hamgylchiadau gyflawni eu llawn botensial a bod yn barod i chwarae rôl weithredol fel dinasyddion cyfrifol a hyrwyddwyr cymunedol yn y dyfodol. Er mwyn gwireddu hyn, ac i gyfrannu at weledigaeth uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yng Nghymru, rydym yn derbyn bod angen i ni godi safon addysg yn Ynys Môn. Yn hyn o beth, derbynnir mai un o'r blaenoriaethau i'r Cyngor yw herio syniadau cyfredol, annog arloesed a datblygu seilwaith ysgolion a fydd yn codi safonau addysgu a chyrhaeddiad, lleihau lleoedd gwag, gwella canlyniadau addysgol i blant a phobl ifanc a bod yn ymatebol yn gymdeithasol-economaidd i'n rhaglen gwella cymunedol.

**Sut byddwn yn gwneud hyn yn 2015/16?**

### Parhau i godi safonau o ran cyrhaeddiad addysgol a phresenoldeb drwy:

- Gwneud defnydd priodol o'r holl ddata sydd ar gael i gytuno targedau heriol ar gyfer yr holl ysgolion cynradd ac uwchradd mewn perthynas â chyrhaeddiad yn y Cyfnod Sylfaen, lefelau disgwyliedig a lefelau disgwyliedig + 1 yn y Cyfnod Sylfaen, CA2, CA3 a CA4;
- Defnyddio setiau data craidd a'r model categoreiddio cenedlaethol i herio perfformiad ysgolion unigol;
- Gweithredu'r Cytundeb Partneriaeth diwygiedig i dargedu ysgolion sydd angen cymorth a pharhau i ddatblygu rôl Aelodau Etholedig o ran adolygu cynnydd;
- Defnyddio proses uwchgyfeirio gadarn i herio ysgolion nad ydynt yn gwneud cynnydd digonol, a sicrhau defnydd o ymarferwyr ardderchog (lleol a rhanbarthol) i wneud gwelliannau trwy'r fenter hunan-wella (ysgol i ysgol) a chymorth gan Ymgynghorwyr Her a herio staff a llywodraethwyr ysgol;
- Gwreiddio disgwyliadau'r Awdurdodau Lleol fod ysgolion yn gweithredu cynlluniau sydd wedi eu targedu i gefnogi'r holl ddisgyblion i gyrraedd eu potensial a sicrhau trefniadau cadarn ar gyfer safoni a chymedroli asesiadau yn y Cyfnod Sylfaen a CA2 a CA3.

### Datblygu a chytuno ar strategaeth moderneiddio ysgolion i lywio penderfyniadau tymor hir a fydd yn cynnwys darparu dwy ysgol gynradd ardal trwy:

- Ar yr amod y ceir y caniatadau a'r gymeradwyaeth angenrheidiol, bod gwaith adeiladu wedi cychwyn ar ysgol newydd yn ardal y Llannau a Chaergybi.



DRAFT

- Bydd caniatadau a chymeradwyaeth wedi eu cytuno ar gyfer rhaglen moderneiddio ardal Rhosyr erbyn Ebrill 2016 (Brynsiencyn / Parc y Bont / Dwyran / Niwbwrch / Llangaffo / Bodorgan).
- Bydd yr ymgynghoriad ar gyfer ardal Seiriol wedi cychwyn (ysgolion Biwmares a Llangoed, gan gynnwys pentrefi Llanfaes a Llanddona).

## Mabwysiadu a chyflwyno strategaeth sgiliau rhanbarthol sy'n fodd i Ynys Môn a Gogledd Cymru wella sgiliau'r gweithlu ac alinio eu hunain gyda chyfleoedd yn y dyfodol drwy:

- Ddatblygu cydweithrediad pellach rhwng ysgolion Môn a'r Bwrdd Trawsnewid Ynys Ynni i sicrhau'r amgylchedd gorau posib ar gyfer dysgu ac addysgu o safon uchel ar gyfer pynciau STEM, a sgiliau cysylltiedig eraill ar gyfer cyflogaeth yng nghyd-destun datblygiadau yn y dyfodol gyda'r rhaglen Ynys Ynni a'r Bwrdd Uchelgais Sgiliau Rhanbarthol.
- Datblygu Consortiwm Dysgu Ôl-16 Gwynedd a Môn ymhellach.
- Datblygu'r defnydd o ddata perfformiad a thracio ôl-16 effeithiol i nodi arferion gorau a gwella perfformiad ar lefel Uwch a lefel Uwch Gyfranol.
- Datblygu defnydd mwy effeithiol o drefniadau e-ddysgu ar lefel Uwch a lefel Uwch-Gyfrannol o fewn y Bartneriaeth Ddysgu.
- Parhau i gydweithio gyda Chwmni Prentis Menai i sicrhau bod gan bobl ifanc Ynys Môn gyfleon i gael mynediad i hyfforddiant ardderchog sy'n ymwneud â gwaith a phrentisiaethau.
- Cynnal adolygiad o'r Gwasanaeth Ieuenctid i gwrdd â galwadau'r fframwaith Ymgysylltu â Phobl Ifanc a sicrhau gwasanaeth ieuenctid cynaliadwy ac effeithlon ar gyfer Ynys Môn.

**Crynodeb:**

Wrth weithredu'r uchod rydym yn gobeithio y byddwn, erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2015/16, wedi gweld cyrhaeddiad addysgol yn gwella yng Nghyfnodau Allweddol 1, 2, 3 a 4. Yn ogystal, byddwn wedi cymryd camau breision i sicrhau bod ysgolion newydd yn cael eu hagor yn ardal y Llannau erbyn Medi 2016 a safle Cybi yng Nghaergybi erbyn chwarter olaf 2016. Byddwn hefyd wedi cymeradwyo Achosion Busnes a nodi safleoedd ar gyfer yr ysgolion yn ardaloedd Rhosyr a Seiriol.

Byddwn hefyd wedi parhau i nodi, herio a chefnogi ysgolion sy'n tanberfformio, yn ogystal â sicrhau bod y disgyblion mwyaf dawnus a galluog yn cael eu herio i gyrraedd eu potensial. Yn olaf, byddwn wedi datblygu rhagor o gydweithio rhwng ysgolion Môn a'r Rhaglen Ynys Ynni i hyrwyddo sgiliau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yng nghyd-destun datblygiadau Ynys Ynni i'r dyfodol, a Chwmni Prentis Menai i sicrhau bod pobl ifanc Môn yn cael cyfleon i gael mynediad i hyfforddiant â phrentisiaeth ardderchog.


DRAFT

# Cynyddu ein Opsiynau Tai a Lleihau Tlodi

Mae cael lle fforddiadwy safonol i fyw yn bwysig i sicrhau bod ein holl ddinasyddion yn byw mewn cartref diogel ac addas sy'n eu galluogi i gael y budd mwyaf ar gyfer mynediad i swyddi, hamdden, a mwynderau ac addysg. Yn ogystal, mae'r sylfaen bwysig hon yn eu galluogi i gael y manteision cymdeithasol ac economaidd y maent yn dyheu amdanynt ac yn eu haeddu. Gyda chwmnïau ynni mawr byd-eang yn gweithio tuag at fuddsoddi'n sylweddol yn Ynys Môn, byddwn yn parhau i weithio gyda landlordiaid yn y sector cymdeithasol / preifat i sicrhau'r nifer uchaf posib o gartrefi o safon ar gyfer contractwyr. Byddwn hefyd yn parhau â'n hymdrechion i ddatblygu'r farchnad dai ar gyfer pobl leol gyda phwyslais arbennig yn cael ei roi ar weithio gyda phartneriaid i gynllunio, datblygu a sefydlu mwy o opsiynau tai fforddiadwy ar gyfer ein dinasyddion.

**Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn gwneud y canlynol yn ystod 2015/16.**

### Gweithio gyda phartneriaid i foderneiddio a chydlynu'r gwasanaeth cyngor budd-daliadau er mwyn gwella annibyniaeth a gweithio tuag at ein strategaeth gwrthdlodi a lliniaru effeithiau diwygio lles drwy:

- Sefydlu cysylltiadau amlycach rhwng raglenni gwrthdlodi, (er enghraifft Cymunedau'n Gyntaf Môn, Teuluoedd yn Gyntaf, a Dechrau'n Deg) trwy Gynllun Peilot ar gyfer Fframwaith Canlyniadau Cyffredin a sicrhau'r cyfleon mwyaf posib ar gyfer buddion cymunedol rhwng Cymunedau'n Gyntaf Môn, Lifft a'r Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid
- Rhoi gwasanaethau cynghori a chymorth i gynorthwyo aelwydydd i ddiogelu ac uchafu incwm
- Rhoi taliadau tai dewisol i aelwydydd a effeithir gan fesurau Diwygio Lles
- Arwain a chefnogi gweithrediad y Cynllun Gweithredu Corfforaethol ar gyfer Diwygio Lles gyda'r nod o ostwng y tebygolrwydd y bydd dinasyddion yr Ynys yn dioddef tlodi a digartrefedd
- Cefnogi a gweithredu'r trefniadau Credyd Cynhwysol trwy gynnig cymorth i hawlwyr newydd
- Dod o hyd i ffyrdd o oresgyn pryderon landlordiaid ynghylch materion Diwygio Lles yn arbennig mewn perthynas â Budd-dal Tai.
- Rhoi mwy o bwyslais ar atal digartrefedd.

### Cynyddu'r opsiynau o ran tai fforddiadwy sydd ar gael ar hyd a lled yr ynys a dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd

- Cwblhau 24 o unedau un/dwy ystafell wely yn cael ei ariannu drwy'r grant Cartrefi Bychan.
- Cwblhau 34 o Unedau Tai drwy Gynllun Grant Tai Cymdeithasol a Grant Cyllid Tai

- Prynu 10 o unedau tai Cyngor ychwanegol
- Dod â 60 eiddo a fu'n wag yn y tymor hir yn ôl i ddefnydd

**Archwilio opsiynau i gefnogi pobl ifanc i gael i mewn i'r farchnad dai trwy**

- Helpu 8 aelwyd drwy gynllun Prynu Cartrefi Ynys Môn.

**Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi cyfleoedd prentisiaeth i bobl ifanc drwy**

- Creu 10 o gyfleon ar gyfer swyddi / prentisiaethau trwy adeiladu cynlluniau tai fforddiadwy
- Creu cyfleon ar gyfer swyddi / prentisiaethau drwy ein cynllun cyfalaf tai Cyngor, yn buddsoddi dros £9.8 miliwn yn ystod 2015-2016 ar gynnal a chadw cynlluniedig, rheoli perygl tân, gwaith gwres canolog, gwaith amgylcheddol ac ailfodelu eiddo presennol.

**Cefnogi'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref ac sydd yn ddigartref i ddod o hyd i gartrefi parhaol drwy:**

- Cael 10 eiddo ychwanegol gan landlordiaid Preifat bob chwarter drwy ddefnyddio pecyn cymhelliant Landlord Ynys Môn a sefydlu data-bas cynhwysfawr o landlordiaid sy'n gweithredu ar yr ynys.
- Cynyddu'r nifer o landlordiaid sydd mewn cysylltiad â Gwasanaethau Tai Ynys Môn (h.y. ar ddata-bas) gan o leiaf 20 y chwarter.
- Rhoi Caniatâd Cynllunio ar gyfer 20 o gartrefi fforddiadwy newydd.

**Datganiad Crynhoi:**

Wrth weithredu'r uchod, byddwn felly yn gobeithio bod wedi cyflawni erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2015/16 gynnydd yn yr opsiynau tai fforddiadwy ledled yr Ynys – trwy ddod â 60 o gartrefi gwag yn ôl i ddefnydd; cwblhau 24 o unedau tai un a dwy ystafell wely yn cael eu cyllido trwy'r Grant Cartrefi Bach a Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (VVP) a chwblhau 34 o unedau tai drwy'r Cynllun Grant Tai Cymdeithasol a Grantiau Cyllid Tai. Byddwn yn cynyddu ein stoc o Dai Gyngor gan 10 uned a byddwn wedi nodi safleoedd addas ar gyfer datblygu unedau Tai Cyngor newydd ar yr Ynys.

Byddwn hefyd wedi creu 10 o gyfleon ar gyfer swyddi / prentisiaethau drwy adeiladu cynlluniau tai fforddiadwy. Byddwn hefyd yn arwain o ran cefnogi'r broses o weithredu'r Cynllun Gweithredu Diwygio Lles Corfforaethol gyda'r nod o leihau'r tebygrwydd y bydd dinasyddion yr Ynys yn dioddef tlodi a digartrefedd. Byddwn hefyd wedi canfod 10 eiddo ychwanegol gan Landlordiaid Preifat y chwarter drwy ddefnyddio Pecyn Cymhelliant Landlord Ynys Môn.

# Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd

Mae ein cyfleusterau a'n gweithgareddau hamdden yn parhau i fod yn boblogaidd ac maent yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn cefnogi ac yn cynnal iechyd a lles defnyddwyr gwasanaeth. Rydym yn ymrwymedig i fabwysiadu agwedd fwy masnachol tuag at y ddarpariaeth hamdden ynghyd â gwneud nifer o welliannau er mwyn moderneiddio ansawdd ac argaeledd y cyfleusterau a'r gweithgareddau presennol.

Byddwn yn canolbwyntio ar gynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau hamdden er mwyn cynhyrchu mwy o incwm a lleihau ein dibyniaeth ar gyllid craidd y Cyngor; yn buddsoddi mewn gwell cyfleusterau er mwyn gallu cynnig gweithgareddau mwy amrywiol a chyfarfod â disgwyliadau'r cwsmeriaid, cyflwyno systemau mwy modern ar gyfer talu am/llogi gweithgareddau hamdden a gwella arferion gofal cwsmer er mwyn adlewyrchu anghenion defnyddwyr sy'n newid yn barhaus.

Rydym eisiau cadw ein lle a'n presenoldeb yng nghalon y cymunedau gyda'n darpariaeth o lyfrgelloedd. Bydd hyn yn golygu mwy o weithio mewn partneriaeth a rhannu eiddo i roi i bobl leol fynediad gwell, symlach a llyfnach i'r wybodaeth a'r gwasanaethau y maent eu hangen.

**Sut y byddwn yn gwneud hyn yn 2015/16?**

### Datblygu a gweithredu strategaeth hamdden ar gyfer y tymor canol i arwain penderfyniadau a lleihau'r angen i'r Cyngor fuddsoddi yn ystod oes y cynllun hwn drwy

- Weithredu'r prosiectau allweddol a amlinellir yn y Cynllun Hamdden ar gyfer 2014- 2017.
- Mabwysiadu ymagwedd fwy masnachol tuag at reoli cyfleusterau a darparu gweithgareddau yng Nghanolfannau Hamdden Amlwch, Caergybi, Llangefni a Phorthaethwy.
- Cynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau yn ein Canolfannau Hamdden i 540,000 y flwyddyn (neu uwch).
- Buddsoddi mewn cyfleusterau mwy hyblyg ac addas i'r pwrpas ar gyfer y dyfodol mewn ymateb i anghenion y cwsmer sy'n newid.
- Trosglwyddo cyfleusterau awyr agored yng Nghaergybi i sefydliadau rheoli eraill.
- Datblygu a gweithredu Rhaglen Wella at gyfer Gofal Cwsmer yn y maes Hamdden.
- Darparu cymysgedd o weithgareddau allgyrraedd i gynyddu presenoldeb a gwella cyfranogiad.



DRAFT

**Cydgysylltu ein cyfleusterau neuaddau chwaraeon dan do gyda'n darpariaeth yn yr ysgolion uwchradd a thrafod gyda darparwyr allanol cymunedol i redeg y cyfleusterau gyda'r nos, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau Ysgol drwy**

- Gweithredu prosiectau allweddol a amlinellir yn y Cynllun Hamdden ar gyfer 2014 – 2017
- Mabwysiadu ymagwedd fwy masnachol tuag at reoli cyfleusterau a darparu gweithgareddau yng Nghanolfannau Amlwch, Caergybi, Llangefni a Phorthaethwy.

**Annog datblygu a chefnogi darpariaeth o weithgareddau chwaraeon a hamdden yn y cymunedau, gan y cymunedau**

- Gweithredu prosiectau allweddol a amlinellir yn y Cynllun Hamdden ar gyfer 2014 -2017
- Trosglwyddo rheolaeth Cwrs Golff Llangefni a'r Llain Ymarfer yn llwyddiannus i sefydliad rheoli arall (hyd Ebrill 2017).

**Ymchwilio i opsiynau a gweithredu model diwygiedig ar gyfer darparu gwasanaeth Llyfrgelloedd**

- Cael cymeradwyaeth ar gyfer y modelau cychwynnol ar gyfer trawsnewid Llyfrgelloedd, cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus a chytuno ar y model a ffefrir i'w ddarparu o Ebrill 2016.

**Ymchwilio i opsiynau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth yn ein safleoedd treftadaeth ddiwylliannol a gweithredu trefniadau rheoli newydd (os yw'n berthnasol)**

- Cael cymeradwyaeth ar gyfer y modelau cychwynnol ar gyfer trawsnewid gwasanaethau Treftadaeth, cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus a chytuno ar y model a ffefrir i'w ddarparu o Ebrill 2016.

**Datganiad Crynhoi:**

Wrth weithredu'r uchod, byddwn felly yn gobeithio bod wedi cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2015/16 gyda chynnydd a gwelliant o ran y nifer sy'n cymryd rhan, profiad y cwsmer a chynnydd yn yr incwm ym mhob un o'n canolfannau hamdden. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn cynyddu nifer y cyfranogwyr yn ein canolfannau hamdden i 540,000 y flwyddyn (neu uwch).

Byddwn hefyd yn gweithio tuag at drosglwyddo'r cyfleusterau awyr agored yng Nghaergybi i sefydliad rheoli arall yn ogystal â datblygu a gweithredu Rhaglen ar gyfer Gwella Gofal Cwsmer yn y maes Hamdden a darparu cymysgedd o weithgareddau allgyrraedd i gynyddu niferoedd a gwella cyfranogiad.

Byddwn hefyd wedi cytuno ar fodelau newydd ar gyfer darparu'r gwasanaethau Diwylliannol a Llyfrgell, wedi sefydlu strwythur rheoli newydd ar gyfer Llain Ymarfer Golff Llangefni ac wedi cwblhau'r gwaith o allanoli pump o gyfleusterau awyr agored / cymunedol yn ardal Caergybi.



DRAFT

# Canolbwyntio ar Gwsmeriaid, Dinasyddion a Chymunedau

Mae gennym lawer i'w wneud eto i safoni a symleiddio prosesau a thrwy ein gwaith gyda Cynghorau eraill, rydym yn rhagweld y byddwn yn sicrhau effeithlonrwydd pellach yn ein swyddogaethau cefnogi a gwell gwydnwch o ran gwasanaethau arbenigol a sgiliau prin. Rhan hanfodol o drawsnewid ein Cyngor yw gwrando ar yr hyn y mae ein dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a busnesau yn ei ddweud - a gweithredu ar hynny.  Dros y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi dangos ymrwymiad gwirioneddol tuag at ddarparu gwasanaethau'n well  a bydd hyn ond yn gwella eto . Byddwn yn gwneud y mwyaf o'n technegau cyfathrebu dwyieithog trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol fel 'Facebook' a Trydar yn ogystal â grwpiau traddodiadol wyneb yn wyneb, grwpiau ffocws, paneli dinasyddion a sioeau teithiol cyhoeddus.

**Sut y byddwn yn gwneud hyn yn 2015/16?**

**Datblygu , cytuno a llofnodi siarter cwsmeriaid cadarn a dilys sydd yn gosod  disgwyliadau penodol ar ein staff wrth ddelio â chwsmeriaid**

- Darparu prosiect i gyfrannu tuag at y nod corfforaethol o sefydlu ffocws ardderchog ar y cwsmer, y dinesydd a'r gymuned.  Drwy adeiladu ar fabwysiadu'r siarter gwasanaeth cwsmer ar gyfer CSYM, byddwn yn sicrhau y bydd yr holl wasanaethau yn cyflawni'r safonau siarter gwasanaeth ac y bydd trefniadau monitro yn eu lle i sicrhau parhad ymarfer da.
- Datblygu pecyn cymorth i ddenu a chadw gweithlu hyblyg i gyfarfod â'n disgwyliadau a'n gwerthoedd i'n sefydliad i'r dyfodol.  Recriwtio'r bobl iawn a moderneiddio agweddau'r staff presennol trwy gwestiynau alinio gwerth ar gyfer staff presennol a staff newydd.
- Datblygu a chryfhau ein hymgysylltiad a'n hymwneud â dinasyddion Ynys Môn o fewn prosesau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd y Cyngor drwy gefnogi'r bartneriaeth Prosiect Lleisiau Cymunedol "Gwrandewch/Listen" er mwyn cynyddu ymgysylltiad unigolion a chymunedau sydd â diddordeb mewn dylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus ym Môn.

**Archwilio ansawdd yr adeiladau y mae cwsmeriaid yn derbyn gwasanaethau ynddynt, gan anelu at gyrraedd safon gyson ar draws y Cyngor sy'n cyflwyno'r ddelwedd gywir ar gyfer y gwasanaethau sydd ar gael drwy**

- Bydd y rhaglen gweithio'n gallach yn atgyfnerthu ein prif dderbynfeydd a rhai allanol i ddarparu agwedd siop un stop i wasanaethu anghenion y cwsmer yn y pwynt cyswllt.

**Sicrhau y byddir hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig drwy greu a gweithredu ar strategaeth iaith Gymraeg ddatblygedig**

- Sy’n nodi’r  prif flaenoriaethau ar gyfer y Strategaeth Iaith Gymraeg trwy gyfarfodydd rheolaidd o'r Fforwm Iaith Gymraeg

**Datganiad Crynhoi:**

Wrth weithredu’r uchod, byddwn felly yn gobeithio cyflawni erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2015/16, brosiect a fydd yn cyfrannu tuag at y nod corfforaethol o sefydlu ffocws ardderchog ar y cwsmer, y dinesydd a’r gymuned a byddwn wedi cymryd camau i sicrhau bod gennym bolisi recriwtio a phroses sy’n recriwtio’r bobl iawn ar gyfer y swyddi iawn.

Byddwn hefyd wedi datblygu a chryfhau ymhellach ein hymgysylltiad â’n hymwneud  â dinasyddion Ynys Môn ym mhrosesau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd y Cyngor trwy gefnogi partneriaeth 4 blynedd y Prosiect Lleisiau Cymunedol “Gwrandewch/Listen”.

DRAFT

# Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu ( TGCh )

Wrth drawsnewid ein gwasanaethau, bydd adnoddau'r Cyngor yn cael eu defnyddio'n fwy effeithlon ac effeithiol i gyflawni targedau a nodir a chynllunio'n unol â hynny. Bydd y Cyngor yn dod yn sefydliad 24/7 drwy ddefnyddio sianeli megis gwefannau a chyfryngau cymdeithasol, dulliau sydd eisoes yn cael eu defnyddio gan ein cwsmeriaid i ddiwallu llawer o'u hanghenion personol neu fusnes fel bancio neu siopa. Fel hyn, gall ein cwsmeriaid gael mynediad at yr hyn y maent ei angen, pan fyddant ei angen, ble bynnag y maent ac yn eu dewis iaith.

Gellir rhyngweithio yn electronig, yn fewnol ac yn allanol ac ar bob lefel. Bydd cyfathrebu wyneb yn wyneb a ffyrdd eraill ar gael ar gyfer y rhai sydd eu hangen. Drwy newid systemau, byddwn yn rhyddhau staff i 'wneud eu gwaith' o fewn ffiniau clir gan ddefnyddio prosesau sy'n gadarn eto'n ystwyth. Bydd ein systemau yn cefnogi ein blaenoriaethau a byddir yn rhesymoli'n drylwyr i sicrhau nad yw'r systemau hynny nad ydynt yn cefnogi'n blaenoriaethau yn cael eu defnyddio mwyach.

**Sut y byddwn yn gwneud hyn yn 2015/16?**

**Galluogi staff i gael mynediad at y systemau cyfrifiadurol sydd eu hangen arnynt yn ddiogel o unrhyw leoliad drwy:**

- Gweithredu'r Rhaglen Gweithio'n Gallach fydd yn cynnwys datblygu datrysiadau cadarn a chynaliadwy i alluogi mynediad o bell fydd yn golygu y bydd staff yn gallu gweithio'n fwy hyblyg i gyfarfod ag anghenion a galwadau ein cwsmeriaid.

**Galluogi cwsmeriaid a dinasyddion i gyfathrebu gyda'r Cyngor yn electronig dros y we ar amser ac mewn lleoliad sy'n gyfleus iddynt drwy:**

- Ddatblygu a gwella'r gwasanaeth asesiad ariannol sengl o fewn y swyddogaeth adnoddau drwy gynnwys y rhannau a gytunwyd o Gyllid Cleient Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Sefydlu system e-ffurflenni ar gyfer defnydd Gofal Cymdeithasol a Chorfforaethol.
- Sefydlu systemau e-ffurflenni ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau a'u hadolygu ar gyfer defnydd Corfforaethol.
- Datblygu ymhellach y defnydd o e-ffurflenni i Aelodau gofrestru diddordebau, e-ffurflenni ar gyfer cofrestru etholiadol a gweinyddu etholiadau.

**Sicrhau bod gwasanaethau yn defnyddio technoleg yn fwy eang i ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol drwy:**

- Gyrru'r mentrau canlynol yn eu blaenau :-

- System Rheolaeth Ariannol
- System Adnoddau Dynol deinamig ar y We.
- Systemau Rheoli Perfformiad a Phrosiect
- System Rheoli Cofnodiadau
- Systemau sy'n hwyluso Mynediad o Bell
- Pecyn cymorth recriwtio a chadw (RRT)

Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn grymuso ein cwsmeriaid i gael mynediad i'n gwasanaethau pan fyddant eu hangen hwy fwyaf yn y ffordd y maent hwy'n dymuno eu derbyn.

**Chwilio am dechnolegau TGCh newydd i gwrdd ag anghenion presennol a dyfodol y Cyngor a dinasyddion yr Ynys drwy:**

- Adolygu, ailddrafftio a mabwysiadu dogfen Strategaeth TGCh gynhwysfawr fydd yn amlinellu agwedd yr awdurdod tuag at dechnoleg a'i ddefnydd ohono i sicrhau y darperir gwasanaeth ac i sicrhau gwelliannau busnes.
- Datblygu a darparu datrysiad wrth gefn cadarn i gefnogi'r systemau TG sy'n hanfodol ar gyfer busnes ac a fydd yn cefnogi trawsnewid yr Awdurdod

**Datganiad Crynhoi:**

Wrth weithredu'r uchod, byddwn felly yn gobeithio bod wedi cyflawni erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2015/16 wasanaethau mwy cydlynol a mwy hygyrch i gwsmeriaid sy'n delio â'r Cyngor. Bydd hyn yn cynnwys gwella neu gaffael systemau mewnol fydd yn gwneud y Cyngor a'i staff yn fwy effeithlon ac effeithiol wrth ddelio ag anghenion y cyhoedd.

DRAFT

# Blaenoriaethu Gwelliannau eraill

Yn ystod Chwefror 2015, cynhaliwyd Asesiad Corfforaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru o fewn y Cyngor ac fe nodwyd, drwy ein hunanasesiad ni ein hunain, nifer o feysydd a materion oedd angen eu gwella os ydym am fodloni yn llawn ofynion ein 6 Thema Allweddol - yr egwyddorion a'r ymarferion rydym yn anelu atynt er mwyn dod yn un o'r Cynghorau sy'n perfformio orau yng Nghymru. Fel y gellir gweld, mae'r gwelliannau hyn yn aleinio gyda nifer o rai a nodwyd eisoes uchod, neu fel arall sy'n helpu i yrru a chefnogi blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol. Mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu'r camau gwella er mwyn paratoi ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol nesaf ymhen 2 flynedd - ond mae peth o'r gwaith hwn eisoes wedi dechrau neu mae'n mynd yn ei flaen neu fe fydd yn cael ei gwblhau o fewn y ddwy flynedd nesaf.

| **THEMA 1 – Proffesiynol ac yn cael ei Redeg yn Dda**<br>**"Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu partneriaeth ddemocrataidd a phroffesiynol fydd yn darparu arweinyddiaeth effeithiol a chryf a sefydlu'r ymddygiadau proffesiynol a sefydliadol angenrheidiol sydd eu hangen i sicrhau gwelliant"** | **Blaenoriaethu** | |
|---|---|---|
| | **Blwyddyn 1** | **Blwyddyn 2** |
| Cyflwyno agwedd fwy corfforaethol gan UDA a dirprwyo mwy i Benaethiaid Gwasanaeth | ✓ | |
| Gwella a mireinio trefniadau rheolaeth ariannol fewnol | ✓ | |
| Ymwreiddio ein fframwaith gyfathrebu fewnol yn cynnwys sesiynau briffio misol i Aelodau a hawl i staff gael eu cysylltu. | ✓ | |
| Cryfhau ymhellach agweddau tîm rhwng Uwch Swyddogion yn gweithio gydag Academi Cymru | | ✓ |
| Gweithredu'r trefniadau Rheoli Risg Corfforaethol newydd | ✓ | |
| Adolygu a diweddaru cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio | | ✓ |
| Egluro rôl y Deilyddion Portffolio Cysgodol a datblygu ymhellach gynllun gwaith Sgriwtini ac ymgysylltiad â chydranddeiliaid | | ✓ |
| Cyflawni'r Prosiect Caffael Corfforaethol | ✓ | |
| Datblygu trefniadau Parhad Busnes yn gorfforaethol ac ar lefel gwasanaeth | ✓ | |
| **THEMA 2 – Arloesol, Uchelgeisiol ac Eangfrydig**<br>**"Sefydlu amgylchedd a diwylliant sy'n annog ac yn meithrin arloesedd a syniadau a datrysiadau creadigol. Bydd y Cyngor yn edrych y tu hwnt i'r sefydliad i geisio datrysiadau uchelgeisiol fydd o fudd i gwsmeriaid, dinasyddion a chymunedau"** | | |
| Cynnal y cynnydd ar y Rhaglen Drawsnewid | ✓ | |
| Adlewyrchu ar effaith Wylfa Newydd a mentrau mawr eraill yn ein gwaith cynllunio gwasanaeth i'r dyfodol | | ✓ |
| Gweithredu Gweithio'n Gallach | ✓ | |
| Gweithredu rhaglen o newid diwylliannol. | ✓ | |
| Gweithredu Strategaeth TGCh sy'n cefnogi arloesed | ✓ | |

| | | |
|---|---|---|
| Datblygu a gweithredu ymhellach gynllun awgrymiadau staff | | ✓ |
| **THEMA 3 – Yn canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned**<br>**"Bydd y Cyngor yn gwerthfawrogi ac yn datblygu ei bobl fel eu bod yn sgilgar, wedi'u hysgogi a bob amser yn broffesiynol yn y ffordd y maent yn gweithio. Bydd yn cydnabod llwyddiant ac arloesed ac ymrwymiad i ddarparu profiad eithriadol i'r cwsmer"** | | |
| Sefydlu ac ymwreiddio agwedd gorfforaethol a phartneriaeth tuag at ymgysylltiad | | ✓ |
| Gwella ansawdd a nifer o sianelau i gwsmeriaid gael mynediad i'n gwasanaethau | ✓ | |
| Gweithredu yn llawn y Cynllun Gweithredu Siarter Cwsmer | ✓ | |
| Cyflwyno Pecyn Cymorth Asesu Gwerthoedd i helpu gyda recriwtio a datblygu staff | | ✓ |
| Adolygu'r Strategaeth Gyfathrebu | | ✓ |
| **THEMA 4 – Gweld Gwerth mewn Pobl a'u Datblygu**<br>***"Bydd y Cyngor yn gweld gwerth yn ei bobl ac yn eu datblygu fel eu bod yn sgilgar, wedi'u hysgogi a bob amser yn broffesiynol yn y ffordd y*** **maent yn gweithio. Bydd yn cydnabod llwyddiant ac arloesed ac ymrwymiad i ddarparu profiad eithriadol i'r cwsmer"*"*** | | |
| Symud ymlaen gyda datblygu Cynlluniau Datblygu Gweithlu gwasanaeth a chynllunio gweithlu Corfforaethol mewn amgylchedd dwyieithog. | ✓ | |
| Datblygu pecyn cymorth i'w ddefnyddio yn y broses recriwtio er mwyn sicrhau bod gan ymgeiswyr werthoedd craidd sy'n alinio gyda'n rhai ni, a darparu cefnogaeth wedi'i dargedu i'r staff presennol er mwyn alinio gwerthoedd ac agweddau | | ✓ |
| Cymryd mantais lawn o system gyfrifiadurol (AD) ar gyfer y gweithlu | ✓ | |
| Datblygu'r broses ar gyfer nodi staff gyda photensial drwy ein Strategaeth Rheoli Talent, a darparu cyfleon i wneud cynnydd. | ✓ | |
| Datblygu adolygiadau datblygu personol fel rhan o gofnod electronig staff a gyda chysylltiadau cliriach rhwng amcanion corfforaethol, gwasanaeth a rhai unigol. | ✓ | |
| Cyflwyno Adolygu Datblygiad Personol 360$^{o}$ i Benaethiaid Gwasanaeth a'r UDA | | ✓ |
| Gweithredu system rheoli polisi i'r Cyngor fydd yn cynnwys polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau corfforaethol allweddol. | | ✓ |
| **THEMA 5 – Wedi ymrwymo i Bartneriaeth**<br>***"Rydym yn deall na allwn ddarparu'r trawsnewid sydd ei angen ar ein pennau ein hunain ac rydym yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth gyda'r cyhoedd, ein partneriaid sector gwirfoddol a phreifat er mwyn darparu twf a datblygiad cynaliadwy."*** | | |
| Gwella gwerthusiad Sgriwtini o drefniadau partneriaeth ranbarthol, isranbarthol a lleol er mwyn sicrhau manteision i ddinasyddion Ynys Môn ac aliniad gyda'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol | ✓ | |
| Datblygu Strategaeth Cyfathrebu ar gyfer y BGLl | | ✓ |
| Mwy o gyflymder a dwysedd o ran trefniadau partneriaeth gyda Chynghorau Tref a Chymuned | ✓ | |
| Cryfhau rhai trefniadau llywodraethu penodol | ✓ | |
| Datblygu Polisi Partneriaeth gyda chyfarwyddyd clir ar feini prawf ar gyfer sefydlu partneriaeth a'r modelau llywodraethiant a ddisgwylir | ✓ | |
| **THEMA 6 – Cyflawni**<br>***"Bod y Cyngor yn rhoi pwyslais ar ganlyniadau a deilliannau ac yn ymdrechu i wella perfformiad mewn meysydd pwysig o'n gwaith."*** | | |

| | | |
|---|---|---|
| Datblygu'r Cynllun Corfforaethol ymhellach. | ✓ | |
| Cyflawni cysondeb yn safon y Cynlluniau Darparu Gwasanaeth | ✓ | |
| Parhau i fireinio Cardiau Sgorio Corfforaethol a Gwasanaeth | ✓ | |
| Sicrhau gweithrediad camau Adolygu Perfformiad Gwasanaeth | ✓ | |
| Adeiladu ar lwyddiant CTPB a phrosesau sy'n sylfaen iddynt | ✓ | |
| Caffael a gweithredu system reoli perfformiad electronig corfforaethol, sicrhau'r sgiliau dadansoddi sydd eu hangen a grymuso staff drwy hyfforddiant i reoli perfformiad yn well. | | ✓ |

# Manylion Pellach

**I gael mwy o wybodaeth am unrhyw beth yn y ddogfen hon neu i wneud unrhyw sylwadau, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:**

**Swyddfa'r Dirprwy Brif Weithredwr**
**Cyngor Sir Ynys Môn**
**Swyddfeydd y Cyngor**
**Llangefni Ynys Môn**
**LL77 7TWF**
**fôn - 01248 752111E**
**-bost - GethinMorgan@ynysmon.gov.uk**

**Mae'r ddogfen hon ar gael ar dâp, mewn braille ac ar y wefan y Cyngor:**
**www.ynysmon.gov.uk/cynlluncorfforaethol**

**Gellwch gael mwy o wybodaeth hefyd fel a ganlyn:**
**Gellir gweld polisïau, cynlluniau a strategaethau a gyhoeddir gan y Cyngor www.ynysmon.gov.uk**

**Mae'r Cynllun Gwella Blynyddol ar gael ar wefan y Cyngor trwy glicio ar y ddolen a ganlyn:**
**www.ynysmon.gov.uk/AGBSAC**

**Mae Adroddiadau Archwilio ac Arolygu a gynhyrchwyd gan Reoleiddwyr y Cyngor ar gael ar eu gwefannau unigol fel a ganlyn:**

- **Swyddfa Archwilio Cymru:**
  **www.wao.gov.uk**
- **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:**
  **www.cssiw.org.uk**
- **Estyn:**
  **www.estyn.gov.uk**

**Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, neu i gael dogfen nad yw wedi ei rhestru uchod, cysylltwch â'r Cyngor os gwelwch yn dda trwy'r manylion cyswllt a amlinellir ar frig y dudalen hon.**

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

SCRUTINY

# RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

Cadeirydd: Y Cynghorydd Meirion Jones
Is-Gadeirydd: Y Cynghorydd Gwilym Jones

Y tabl isod yw Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol o 16 Ebrill 2015 i ddiwedd y flwyddyn ddinesig ar 14 Mai 2015 ( h.y Cyfarfod Blynyddol y Cyngor) . Adroddir ar y Rhaglen Waith i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini i bwrpas adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu ohirio/tynnu eitemau yn ôl.

Cyswllt: Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752039
E-bost: gwrce@ynysmon.gov.uk

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad/Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar phob Rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriad**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd.**<br>• **Rhaglen Gwaith** | | | |
| **11 Mai 2015** | Monitro'r Perfformiad – Sgorfwrdd Corfforaethol Chwarter 4 2014/2015 | Monitro'r Perfformiad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yp |
| | Monitro'r Gyllideb – Y Gyllideb Refeniw Chwarter 4 2014/2015 | Monitro'r Gyllideb | |
| | Monitro'r Gyllideb – Y Gyllideb Gyfalaf Chwarter 4 2014/2015 | Monitro'r Gyllideb | |
| | | | |